

Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	Robert Donovan
a fideogynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Medi 2024	0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddEconomi@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat
(09.15–09.30)

Cyfarfod cyhoeddus
(09.30)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(09.30)

2 Papurau i'w nodi
(09.30)

2.1 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru

(Tudalennau 1 – 13)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan Brif Swyddog Gweithredol Banc Datblygu Cymru – 24 Mehefin 2024

Ymateb Llywodraeth Cymru – adroddiad Banc Datblygu Cymru – 28 Awst 2024

Ymateb Banc Datblygu Cymru – adroddiad Banc Datblygu Cymru – 4 Medi 2024 [Saesneg yn unig]



Senedd Cymru
Welsh Parliament

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymchwil a Datblygu

(Tudalennau 14 – 17)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg – 26 Mehefin 2024

2.3 Sesiwn ddilynol gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog – Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(Tudalennau 18 – 19)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 1 Gorffennaf 2024

2.4 Sesiwn ddilynol gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

(Tudalennau 20 – 21)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg – 1 Gorffennaf 2024

2.5 Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach

(Tudalennau 22 – 50)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg – 10 Gorffennaf 2024

2.6 Dyfodol Dur yng Nghymru

(Tudalennau 51 – 69)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg – 10 Gorffennaf 2024

Llythyr gan y Cadeirydd at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – 18
Gorffennaf 2024

Ymateb Llywodraeth y DU – 9 Awst 2024 [Saesneg yn unig]

Ymateb Llywodraeth Cymru – 28 Awst 2024

2.7 Iechyd a lles anifeiliaid – defnyddio cewyll ar gyfer adar hela

(Tudalennau 70 – 72)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon ac Animal Aid – 18
Gorffennaf 2024 [Saesneg yn unig]

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon ac
Animal Aid – 23 Gorffennaf 2024

2.8 Hybu Cig Cymru – diwylliant a gweithrediadau

(Tudalennau 73 – 74)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at Hybu Cig Cymru – 18 Gorffennaf 2024

2.9 Polisi ‘Bwyd o Bwys: Cymru’ Llywodraeth Cymru

(Tudalen 75)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
– 22 Gorffennaf 2024

2.10 Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

(Tudalennau 76 – 77)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
– 31 Gorffennaf 2024

2.11 Diwygio'r Ardoll Brentisiaethau

(Tudalennau 78 – 80)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Llywodraeth y DU – 1 Awst 2024

Llythyr ymateb gan y Gweinidog Sgiliau, Llywodraeth y DU – 22 Awst 2024
[Saesneg yn unig]

2.12 Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – adborth gan randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru

(Tudalennau 81 – 82)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 9 Awst 2024

2.13 Yr economi werdd

(Tudalennau 83 – 86)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni, Diogelwch a Sero Net, Llywodraeth y DU – 12 Awst 2024

Llythyr gan y Cadeirydd at Ystad y Goron – 12 Awst 2024

2.14 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Cyswllt Ffermio

(Tudalennau 87 – 101)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru – 20 Awst 2024

2.15 Strategaeth Ryngwladol a Maes Awyr Cymru Caerdydd

(Tudalennau 102 – 104)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 20 Awst 2024

2.16 Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 (“Rheoliadau 2024”)

(Tudalennau 105 – 106)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid
Hinsawdd a Materion Gwledig – 22 Awst 2024

2.17 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalen 107)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid
Hinsawdd a Materion Gwledig – 30 Awst 2024

2.18 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Gweinidogion Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a Gwasanaeth Symudiadau Gwartheg Prydain

(Tudalen 108)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid
Hinsawdd a Materion Gwledig – 2 Medi 2024

2.19 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(Tudalennau 109 – 116)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru – 10 Medi 2024

3 Yr Economi Sylfaenol – Panel 1

(09.30–10.30)

(Tudalennau 117 – 139)

Yr Athro Emeritws Karel Williams, Prifysgol Manceinion

Yr Athro Anne Green, Prifysgol Birmingham

Harry Thompson, Pennaeth yr Economi Deg, Cynnal Cymru

Dogfennau atodol:

Papur tystiolaeth – Cynghrair Sylfaenol Cymru [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth – Yr Athro Anne Green a'r Athro Paul Sissons [Saesneg yn unig]

Egwyl

(10.30–10.35)

4 Yr Economi Sylfaenol – Panel 2

(10.35–11.20)

(Tudalennau 140 – 156)

Y Cynghorydd Matthew Brown, Arweinydd Cyngor Dinas Preston

Ceri Cunningham, Swyddog Datblygu, Cwmni Bro Ffestiniog

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.20)

Cyfarfod preifat

(11.20–12.05)

6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(11.20–11.30)

7 Yr economi werdd: Trafod y materion allweddol

(11.30–12.00)

(Tudalennau 157 – 175)

Dogfennau atodol:

Papur ar y materion allweddol [Saesneg yn unig]

8 Trafodaeth ar adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol

(12.00–12.05)

(Tudalennau 176 – 208)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol [Saesneg yn unig]

Paul Davies Aelod o'r Senedd
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Mehefin 2024

Drwy e-bost at: SeneddEconomi@senedd.cymru

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr a chwestiynau ychwanegol am y ddogfen fframwaith.

Yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, cyfeiriodd ein Cyfarwyddwr Buddsoddi, Rhian Elston at ein canllawiau gweithredu buddsoddi sy'n ddogfennau mewnol i Fanc Datblygu Cymru.

Mae gan bob cronfa a reolir gan y Banc Datblygu ei chanllawiau gweithredu ei hun, y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod dechreuol cronfa, sy'n nodi paramedrau'r gronfa gan gynnwys meysydd fel telerau buddsoddi, adrodd a chymhwysedd sector.

Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys llinell gyffredinol bod gweithgareddau a allai ddwyn anfrï ar y Banc Datblygu neu Lywodraeth Cymru yn cael eu heithrio. Yn ymarferol, ac mewn nifer cyfyngedig iawn o achosion, ceisir barn Llywodraeth Cymru am weithgarwch busnes lle mae pryder wedi'i nodi gan dîm y bartneriaeth.

Fel yr ydych wedi nodi, yn unol â'r cytundeb fframwaith, gwneir penderfyniadau buddsoddi yn annibynnol i Lywodraeth Cymru (3.22) ac yn unol â chytundebau'r gronfa a'r dogfennau cysylltiedig (4.19, 4.20). Roedd cynllun corfforaethol 2022/27 yn nodi ein cynlluniau i gynyddu ffocws ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ACLI) fel rhan o wneud penderfyniadau buddsoddi (t37) a daethom yn llofnodwyr i Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig yn 2023.

Hyderaf fod hyn wedi egluro'r trefniadau sydd ar waith,

Yr eiddoch yn gywir,



Giles Thorley
Prif Weithredwr

Banc Datblygu Cymru ccc

Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YL
gwyb@bancdatblygu.cymru | bancdatblygu.cymru



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn www.bancdatblygu.cymru

Tudalen y pecyn 1

Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr dan rif 4055414 yn Uned J, Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam LL13 7YL.

Ken Skates AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a
Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-KSNWT-6093-24

Paul Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

28 Awst 2024

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar waith Banc Datblygu Cymru.

Mae casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn adeiladol a byddant yn llywio gweithrediad parhaus y Banc. Mae ymateb Llywodraeth Cymru ynghlwm ar gyfer pob un o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

Yn gywir

Ken Skates AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 2
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Banc Datblygu Cymru

Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Gorffennaf 2024)

16/08/2024

Ym mis Gorffennaf 2024, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei adroddiad ar Fanc Datblygu Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 13 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Ymateb i'r 13 argymhelliad 3

Argymhelliad 13

Argymhelliad 24

Argymhelliad 34

Argymhelliad 4.....5

Argymhelliad 55

Argymhelliad 66

Argymhelliad 76

Argymhelliad 8.....7

Argymhelliad 97

Argymhelliad 107

Argymhelliad 11.....7

Argymhelliad 128

Argymhelliad 139

Cyflwyniad

Mae Banc Datblygu Cymru yn cefnogi twf ar draws economi Cymru drwy ddarparu benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti ar gyfer pob cam o ddatblygu busnes. Gan lenwi'r gwagle rhwng angen busnesau am gyllid a'r cyflenwad cyllid yn y farchnad, mae Banc Datblygu Cymru yn mynd i'r afael â'r 'bwllch' lle nad yw archwaeth risg a chynnyrch cyllidwyr y sector preifat yn gallu diwallu anghenion busnesau sy'n chwilio am gyllid.

Ers 2017, mae Banc Datblygu Cymru wedi aeddfedu ac wedi profi ei hun yn sefydliad sefydlog a chredadwy sy'n parhau i ddangos cynnydd yn erbyn amcanion strategol yn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan Weinidogion Cymru. 2024/25 fydd wythfed flwyddyn gweithredu'r Banc Datblygu a'r drydedd yn y cyfnod strategol pum mlynedd presennol. Dros y cyfnod hwnnw, mae Banc Datblygu Cymru wedi cael effaith economaidd o dros £1.7bn drwy fuddsoddi uniongyrchol, buddsoddi ar y cyd a darparu gwasanaethau buddsoddi fel cynllun Cymorth i Brynu Cymru.

Mae Banc Datblygu Cymru yn parhau i ddangos cyfraniad clir i ddatblygu economaidd yng Nghymru, yn ogystal â gwelliant parhaus ar draws ei swyddogaethau. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi tynnu sylw'n adeiladol at feysydd heriol i'r Banc ac wedi dod i gasgliadau ac argymhellion gwerthfawr a fydd yn siapio gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yn y dyfodol. Mae'r adroddiad isod yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn yr un ysbryd.

Ymateb i'r 13 argymhelliad

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o gynllunio olyniaeth a phryniannau gan y gweithwyr, a sut y gall Banc Datblygu Cymru gael mwy o ran yn hyn, wrth ddatblygu llythyr cylch gwaith nesaf y Banc.

Ymateb: Derbyn

Yn ogystal â'n hadolygiad blynyddol presennol o'r holl gyllid, rhoddir ystyriaeth i rôl y banc o ran darparu cyllid hygyrch i gefnogi cynllunio olyniaeth a phryniannau gan weithwyr wrth ddatblygu llythyr cylch gwaith y tymor llywodraeth nesaf. Mae Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru, sy'n werth £25m, yn chwarae rhan bwysig o hyd yn y gwaith o helpu busnesau i barhau i fod â'u gwreiddiau a'u perchnogaeth yng Nghymru. Bydd y gronfa hon yn cwblhau ei chyfnod buddsoddi yn 2026 a bydd yn amserol i Lythyr Cylch Gwaith 2026 nodi disgwyliadau i'r dyfodol o ran y maes cyflawni pwysig hwn. Mae'r banc wedi dilyn y cyfarwyddyd a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith cyfredol i gefnogi pryniannau gan weithwyr.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cylch gwaith a chyfrifoldebau Banc Datblygu Cymru wedi tyfu a newid gyda threigl amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio sut y mae swyddogion yn cymryd rhan mewn rhythm rheolaidd o gyfarfodydd â'r Banc gyda statws sylwedydd, ond dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith ar gyfer adlewyrchu newidiadau i'w blaenoriaethau economaidd a'i ffocws dros dymor Senedd. Hoffai'r Pwyllgor i hyn gynnwys ymrwymiad i ddyroddi llythyrau cylch gwaith mwy rheolaidd i'r Banc, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny o reidrwydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi manylion ychwanegol o ran y prosesau y mae'n eu defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Banc Datblygu am unrhyw newidiadau i flaenoriaethau datblygu economaidd neu newidiadau eraill y mae'n gofyn i'r banc fynd i'r afael â nhw drwy ddiweddarau'r Ddogfen Fframwaith bresennol. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r banc. Y brif ffordd o roi gwybod i'r banc am unrhyw newid sylweddol i flaenoriaethau o fewn tymor y llywodraeth fydd drwy ohebiaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Bwrdd. Os bydd unrhyw gyfarwyddiadau newydd yn golygu bod angen newid contractau sydd ar waith ar hyn o bryd rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru, bydd y rhain yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

Mae'r Banc Datblygu wedi dangos ei fod yn gallu ymateb yn gyflym ac yn broffesiynol i gyfleoedd newydd ac amgylchiadau sy'n newid. Mae ymateb y banc i Covid-19 ac, yn fwy diweddar, cyflwyno'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a'r Cymorth i Aros yn enghreifftiau o hyn. Mae adroddiad blynyddol y banc yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r banc yn parhau i ymateb i'r amodau economaidd cyfredol.

Mae'r symudiad i ddarparu llythyrau cylch gwaith 'tymor y llywodraeth' i Gyrff Hyd Braich wedi bod yn fwiadol ac wedi'i gynllunio i helpu Cyrff Hyd Braich drwy ddarparu'r sefydlogrwydd sydd ei angen arnynt i ddatblygu a chyflawni cynlluniau corfforaethol o ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod llythyrau cylch gwaith 'tymor y llywodraeth' yn briodol ac yn addas i'r diben. Barn Llywodraeth Cymru a'r banc yw bod y dull hwn yn cefnogi cynllunio tymor hwy ac effeithiolrwydd sefydliadol. Felly, bydd yn parhau i adlewyrchu newidiadau mewn amodau economaidd drwy ei phrosesau presennol, yn cynnwys cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol ac Ysgrifennydd y Cabinet, ei chyfarfodydd cronfeydd rheolaidd gyda'r Banc a thrwy adolygiadau strategaeth y Banc sy'n cael eu cynnal bob dwy flynedd. Bydd unrhyw ddiweddariadau sylweddol i'r cylch gwaith yn cael eu rhoi ar waith pan fydd angen o fewn tymor llywodraeth.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Banc Datblygu Cymru ymgymryd â darn o waith, neu gomisiynu un, i roi dealltwriaeth gadarn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg o

effaith y cyllid preifat a ddaw i rym o ganlyniad i fuddsoddiadau uniongyrchol gan y Banc ar economi Cymru.

- **Ymateb:** Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r dasg i'r Banc Datblygu o gynnal neu gomisiynu ymchwil yn uniongyrchol er mwyn deall effaith economaidd y buddsoddiad sector preifat sy'n cael ei ysgogi gan fuddsoddiad y Banc. Dylai hyn adeiladu ar y gwaith presennol a wneir fel rhan o'r prosiect ymchwil ar y cyd gyda Dirnad Economi Cymru sydd wedi dadansoddi effaith economaidd buddsoddiadau'r Banc Datblygu.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Banc Datblygu Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar sut y mae'n cefnogi datblygu cynlluniau ynni cymunedol.

Ymateb: Derbyn:

Mae Banc Datblygu Cymru yn cefnogi perchnogaeth leol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy drwy gyllid masnachol a ddarperir o'r Gronfa Ynni Lleol gwerth £12.5 miliwn.

Caiff y cyllid ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac fe'i rheolir gan y Banc Datblygu ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, gan gefnogi'n uniongyrchol bolisi Llywodraeth Cymru y dylai 1 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030. Gall y gronfa hon gefnogi amrywiaeth o fodelau perchnogaeth leol, yn cynnwys grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol, i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy.

Erbyn mis Mawrth 2024, roedd y gronfa wedi buddsoddi £11.6 miliwn mewn 14 o brosiectau ledled Cymru drwy fenthyciadau datblygu prosiectau a benthyciadau gwariant cyfalaf. Hyd yma, mae'r gronfa fel arfer wedi cefnogi prosiectau solar a gwynt a ddatblygwyd gan grwpiau cymunedol lleol drwy gyfalaf. Mae'r cymorth ar ffurf benthyciadau tymor hir o hyd at £2m (mewn achosion eithriadol, gallant fod yn fwy) a chofnodwyd capasiti o 9.37MW ar draws y prosiectau a gefnogir.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 25, mae'r Banc Datblygu yn ystyried a allai cofrestriad Rheoli Cymhorthdal i'r cynllun gynyddu nifer y prosiectau hyfyw y mae'n gallu eu cefnogi. Ar ben hynny, bydd y Banc Datblygu yn edrych ar weithio gydag Ynni Cymru, sydd newydd ei ffurfio, i sicrhau bod cymaint o gyfalaf â phosibl ar gael ar gyfer prosiectau ynni lleol ledled Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru ac archwilio dichonoldeb a dymunoldeb integreiddio'r swyddogaethau hyn yng nghylch

gwaith Banc Datblygu Cymru, a chanolbwyntio ar symleiddio'r cynnig cymorth i fusnesau. Dros y 6-12 mis nesaf, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn, a rhoi sail resymegol glir dros y penderfyniad a wnaed o ganlyniad.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ar y sail y bydd adolygiadau Busnes Cymru a'r Banc Datblygu yn y dyfodol yn ystyried a oes angen cryfhau'r rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau ymhellach a chyfleoedd i integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn agored i'r syniad o archwilio opsiynau tra'n ceisio sicrhau sefydlogrwydd, ansawdd a didueddrwydd darpariaeth gwasanaeth sefydledig.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru geisio dod â negodiadau i ben â Thrysorlys EF cyn gynted â phosibl ar ddatrysiad boddhaol i'r mater ailddosbarthu ar gyfer Banc Datblygu Cymru. Mae rhaid i'r cytundeb y deuir iddo ddiogelu rôl y Banc ac osgoi cyfyngu ar ei weithgareddau fel benthyciwr, ac mae rhaid iddo sicrhau hefyd nad yw'n cael effaith andwyol ar sefyllfa gyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor:

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Thrysorlys Ei Fawrhydi gyda'r nod o sefydlu canlyniad o ran ailddosbarthu'r Banc Datblygu sy'n 'niwtral o ran cyllideb' i'r banc a Llywodraeth Cymru, yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad p'un a ddylid gosod Banc Datblygu Cymru ar sail statudol, ond dylid gwneud y gwaith hwn ar ôl i fater ailddosbarthiad y Banc gael ei ddatrys. Dylai'r adolygiad ystyried pa elfennau o gylch gwaith y Banc y gellid ac y dylid eu gwneud yn statudol. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am ddatblygiadau ac amserlenni arfaethedig ar gyfer y gwaith hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Gan gydnabod natur hirdymor y gwaith a wneir gan y Banc Datblygu a phwysigrwydd sefydlogrwydd o ran cynnal hyder yn y farchnad, bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r argymhelliad unwaith y bydd materion sy'n codi o ailddosbarthu'r Banc Datblygu wedi cael eu datrys.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Fanc Datblygu Cymru adolygu ei brosesau diwydrwydd dyladwy, gyda'r bwriad o nodi a oes angen eu cryfhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y cwmpas, y cynnydd, y canlyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

Ymateb: Derbyn

Gofynnir i'r Banc Datblygu gynnal adolygiad diwydrwydd dyladwy yn unol â'r argymhelliad. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf o ran cynnydd yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru adneuo pob fersiwn yn Llyfrgell y Senedd hyd yn hyn o'r ddogfen fframwaith sy'n nodi ei pherthynas â Banc Datblygu Cymru, a sicrhau y gwneir yr un peth ar gyfer unrhyw fersiwn yn y dyfodol.

- **Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Cafodd y Ddogfen Fframwaith ei diwygio'n sylweddol yn 2021 ac mae pob fersiwn o'r dyddiad hwn ymlaen wedi cael eu rhoi yn Llyfrgell y Senedd. Bydd diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu rhoi yn Llyfrgell y Senedd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Banc Datblygu Cymru wedi gwneud rhai newidiadau i'w broses o ymdrin â chwynion, ond mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid edrych ar y mater o ymdrin â chwynion yn yr adolygiad teilwredig a argymhellir o'r Banc.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu Adolygiad Asesu Prosiect sy'n cael ei arwain yn annibynnol ar agweddau ar gyflawni a sicrwydd a ddarparwyd gan y banc yn 2025. Bydd dull y banc o ymdrin â chwynion yn cael ei gynnwys yng nghylch gorchwyl yr adolygiad hwnnw. Bydd adroddiad cryno ar yr argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Adolygiad Asesu Prosiect annibynnol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor er mwyn helpu i graffu ar y banc yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru ystyried sut y gellir casglu barn busnesau mewn ffordd gyfrinachol a/neu ddienw, gan gynnwys gan y busnesau sydd naill ai heb ddefnyddio'r Banc Datblygu o'r blaen, neu sydd wedi gwneud cais am gymorth a bod yn aflwyddiannus. Dylai'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Banc Datblygu yn cynnal arolwg blynyddol o randdeiliaid lle mae'r ymatebion yn ddienw. Mae'r arolwg hwn hefyd yn casglu barn sefydliadau sy'n aelodau megis y Ffederasiwn Busnesau Bach, y CBI, Cymdeithas Angylion Busnes y DU a Siambrau Masnach. Er mwyn sicrhau annibyniaeth, mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan drydydd parti. Bydd y Banc yn ystyried ymhellach sut y gall ddefnyddio dulliau eraill i annog a chasglu adborth mewn ffordd gyfrinachol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad teilwredig llawn o Fanc Datblygu Cymru, yn ystod tymor y Senedd hon yn unol â'r ymrwymiad gwreiddiol yn llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth y Banc.

- **Ymateb:** Gwrthod

Mae adolygiadau wedi'u teilwra o sefydliadau unigol wedi cael eu gohirio yn dilyn penderfyniad gan y Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi rhoi terfyn ar y broses adolygu wedi'i theilwra ac wedi symud i Adolygiadau â Ffocws. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen adolygu rheolaidd, fodd bynnag, ni fydd yn bosibl cynnal adolygiad wedi'i deilwra o fewn amserlen yr argymhelliad.

Defnyddir adolygiad wedi'i deilwra, pan fo angen, i ystyried a yw sefydliad aeddfed yn dal yn addas i'w ddiben. Fel sefydliad ifanc, mae'r dull hwn yn llai perthnasol i'r Banc Datblygu. Fodd bynnag, mae dulliau eraill o adolygu corff hyd braich y gellid eu hystyried, fel Adolygiadau Asesu Prosiectau. Cynhaliwyd Adolygiad Asesu Prosiect yn 2021. Ystyriodd hwn y prosesau rheoli, goruchwyllo a llywodraethu y cytunwyd arnynt yn ffurfiol a'u rhoi ar waith yn ymarferol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Banc Datblygu, gan roi asesiad oren/gwyrdd cyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu Adolygiad Asesu Prosiect sy'n cael ei arwain yn annibynnol yn 2025, ar agweddau ar gyflawni a sicrwydd a ddarparwyd gan y banc. Bydd adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r cylch gorchwyl ar gyfer Adolygiad Asesu Prosiect pellach a bydd yn cynnwys elfennau o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull tair llinell amddiffyn i roi sicrwydd ynghylch cyllid a gweithrediadau cyrff cyhoeddus, ac felly rydym yn hyderus bod gan y banc system reoli gadarn ar waith, drwy graffu parhaus gan ei Dîm Partneriaeth, y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac archwilwyr mewnol ac allanol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn addasu ac yn gweithredu model risg Hunanasesu Cabinet y DU er mwyn i unrhyw adolygiadau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar asesiad risg a gynhelir gan y Tîm Partneriaeth a'r Corff Cyhoeddus. Mae'r Model Hunanasesu yn adrodd ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, llywodraethu ac atebolrwydd y sefydliad. Ar sail yr adolygiad cyfannol hwn, gallai'r camau nesaf gynnwys rhagor o gymorth, gwerthusiad neu adolygiad a fydd yn canolbwyntio ar y maes/meysydd a nodwyd.

Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i roi'r Model Hunanasesu ar waith yn ystod 2025. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Banc Datblygu fel un o'r sefydliadau i dreialu'r model hwn gyda'r bwriad wedyn o gynnal adolygiad penodol a fydd yn seiliedig ar adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor yn ystod 2026.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgysylltiad y Banc â Banciau Datblygu eraill a sefydliadau a fforymau perthnasol. Mae'n annog y Banc i wneud rhagor o waith gyda Grŵp Montreal, er mwyn sicrhau ei fod yn mabwysiadu arfer gorau, ac mae'r Pwyllgor yn cefnogi ei nod o ymuno â'r Grŵp yn llawn.

- **Ymateb:** Derbyn

Ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei argymhellion, mae'r Banc Datblygu wedi dechrau'r broses o ymuno'n ffurfiol â Grŵp Montreal. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynnu bod y Banc Datblygu yn dangos ei fod yn ymgysylltu'n briodol i fanteisio ar yr arferion gorau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade and Rural Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Via email to: SeneddEconomy@senedd.wales

4th September 2024

Dear Paul,

To maintain the momentum on addressing the Committee's recommendations regarding the ETRA committee report on the Development Bank of Wales, I have set out below some progress on the items discussed in the report.

Recommendation 4 – Community Energy Schemes – Please find attached a briefing paper on our activity to support for local ownership in renewables.

Recommendation 6 - Accounting Treatment – Whilst this is a matter more specifically for our colleagues in Welsh Government, we have also initiated a conversation with our counterparties in other similar arm's length funding organisations inc. inter alia, British Business Bank, Scottish National Investment Bank, and Invest Northern Ireland to ensure there is a consistent approach to the treatment of these organisations that supports their stated objectives.

Recommendation 13 - Montreal Group – We are continuing the dialogue with the Montreal Group about closer co-operation. Following recent conversations, the Group feel that is unlikely that they will be able to offer full membership to regional development banks preferring to keep full membership to the national organisations.

We are making further progress on recommendations 3, 8 and 11 and will revert with further details as soon as possible.

Please come back to us if you have any questions or need more information on any of the matters discussed.

Yours sincerely,



Giles Thorley
Chief Executive

Development Bank of Wales Plc

Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales

Tudalen y pecyn 12

Support for local ownership in renewables

Briefing note for the Economy, Trade and Rural Affairs Committee
August 2024



The Local Energy Fund

The Development Bank of Wales supports local ownership in renewable energy projects through commercial finance provided from the £12.5 million Local Energy Fund.

The funding is provided by the Welsh Government and is managed by the Development Bank in conjunction with the Energy Saving Trust, directly supporting the Welsh Government's policy for 1 GW of renewable energy generation capacity to be locally owned by 2030. This fund can support a range of local ownership models including community groups and social enterprises to develop renewable energy projects.

As at March 2024, the fund has invested £11.6 million to 14 projects across Wales through project development loans, and capital expenditure loans. To date the fund has typically supported solar and wind projects developed by local community groups through patient capital. Support takes the form of long-term loans of up to £2m (larger by exception) and 9.37MW of capacity been recorded across projects supported.

For FY25 the Development Bank is exploring whether a Subsidy Control registration of the scheme might increase the number of viable projects we are able to support, through the ability to allow more flexibility in the funding offer such as the related interest rate charges. In addition, the Development Bank will explore working with the newly formed Ynni Cymru to maximise the availability of capital for local energy projects across Wales.

Case Study

Supporting local ownership of large onshore wind projects

The Development Bank has initiated discussions with most of the major wind developers with projects in Wales to understand the role we could play in ensuring local ownership in these larger projects. We have had positive engagement through round table discussions¹, direct discussions as well as through support organisations such as Community Energy Wales.

There is no standard approach across the industry and these projects are on long timescales (5-10 years from prospect to funding need). We are seeking to understand models where funding can be provided to a community group enabling it to take the local ownership or funding could be provided directly with the Development Bank taking an equity position.

One of the most advanced models appears to be the Y Bryn scheme by Coriolis Energy who have signed memorandums of understanding around the creation of a community benefit fund and a community ownership model. Working with local voluntary organisations, the scheme will involve creating a new community benefit society called "Awel y Bryn Co-op" which will be managed jointly by Awel Aman Tawe, Bridgend Association of Voluntary Organisations and the Neath Port Talbot Council for Voluntary Service. We have reached out to the company to explore the detail of this model and whether there is a role for the Development Bank to enable this in the wider market. We are also in touch with the Scottish National Investment Bank who are also exploring options to meet this funding need.

We are engaged with local developers, such as Pennant Walters, on their projects. The capital markets have become more challenging in recent years for small developers, with the change in the feed in tariff. We are therefore considering whether this change has created a market gap.

¹Round table attendees included; RWE, Vattenfall, Belltown, Statkraft, EDF and Bute Energy.
Direct discussion with Pennant Walters



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

26 Mehefin 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 7 Mai, ac am roi copi i mi o adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Ymchwil a Datblygu. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Rwy'n ddiolchgar am waith y Pwyllgor ar hyn ac yn atodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion unigol.

Yr eiddoch yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 14
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o'r enw *Ymchwil a Datblygu*

Argymhelliad 1 - Dylai Llywodraeth Cymru gynnal, neu gomisiynu, adolygiad o lefel y cyllid Ymchwil o Ansawdd a ddarperir i sefydliadau Cymru, er mwyn pennu'r swm sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt ganfod y ffordd orau o gynnal ymchwil a chystadlu am gyllid allanol. Dylai'r adolygiad ystyried adolygiadau Diamond a Reid ac ystyried lefelau cyllido cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Mae dyletswydd statudol gan y Comisiwn i hyrwyddo ymchwil ac arloesi. Rydym hefyd wedi cyhoeddi Datganiad o Flaenoriaethau Strategol y disgwylir i'r Comisiwn eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- hyrwyddo cydweithio i hybu rhagoriaeth mewn ymchwil ac arloesi a datblygu mesurau ar gyfer perfformiad ymchwil fel bod yr allbynnau'n diwallu anghenion y wlad;
- Datblygu diwylliant o arloesi a chydweithio gyda busnes, buddsoddwyr diwydiant a llywodraeth ar waith yn seiliedig ar genhadaeth sy'n cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas.

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ddosbarthu cyllid Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd (QR), gan gynnwys gwelliannau cysylltiedig sydd â chysylltiad â'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Daw'r Comisiwn yn weithredol ym mis Awst 2024 a bydd yn cyflwyno ei Gynllun Strategol i'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r gallu gan y Comisiwn hefyd i gynnal gwaith dadansoddi, a chyflwyno achos i Weinidogion Cymru am gyllid ychwanegol, gan gynnwys cyllid cysylltiedig ag ansawdd.

Argymhelliad 2 - Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy o ddadansoddiad o ledaeniad cyllid ymchwil a datblygu ledled Cymru er mwyn deall y darlun cenedlaethol yn llawn, ac edrych ar feithrin partneriaethau neu fentrau ariannu penodol eraill y tu allan i'r ardaloedd lle mae clystyrau arloesi llwyddiannus eisoes yn bodoli.

Ymateb: Derbyn

Mae cytundeb rhannu data ar waith rhwng Innovate UK a Llywodraeth Cymru sy'n ein galluogi i gael mynediad at ddata, yn ychwanegol at yr hyn sydd yn y parth cyhoeddus, ar geisiadau a gyflwynir am gyllid ymchwil, datblygu ac arloesi. Gan ddefnyddio'r cytundeb hwn, a setiau data eraill, rydym yn bwriadu cynnal dadansoddiad pellach ar ledaeniad rhanbarthol y cyllid, fel rhan o'n gweithgareddau adolygu a gwerthuso ar gyfer ein Strategaeth Arloesi, Cymru'n Arloesi.

Mae gennym gynllun cydweithredol gydag Innovate UK eisoes, gyda'r nod o ysgogi mwy o gyllid ymchwil, datblygu ac arloesi i mewn i Gymru, trwy gryfhau ein cynigion buddsoddi. Enghraifft o gydweithio yw menter ariannu benodol ar gyfer safleoedd lansio yn rhanbarthau'r De-orllewin, y Canolbarth a'r Gogledd, gyda'r nod o gefnogi clystyrau o fentrau bach a chanolig ym meysydd Sero Net a bwyd-amaeth, a'u datblygu ymhellach. Cefnogodd Llywodraeth Cymru ddatblygiad y cynigion hyn, a arweiniwyd yn rhanbarthol gan awdurdodau lleol, cyfranogwyr academiaidd a rhanbarthol, megis Bargeinion Dinesig a Thwf.

Argymhelliad 3 - Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid ar gynllun cyfathrebu i dynnu sylw at effeithiau a manteision ymchwil ac arloesi a ariennir yn gyhoeddus i ystod ehangach o gynulleidfaoedd yng Nghymru, i godi ymwybyddiaeth o sut mae busnesau a'r byd academiaidd yn cydweithio ar heriau arloesi mawr a chynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad mewn ymchwil a datblygu, gan ddechrau gydag ysgolion, ond gan gyrraedd ystod o gynulleidfaoedd mewn modd creadigol.

Ymateb: Derbyn

Roedd gwella cyfathrebu ar y cyfleoedd ar gyfer arloesi, a'r buddion o wneud hynny, yn thema allweddol o'r ymgysylltu a'r ymgynghori a wnaed ar gyfer Cymru'n Arloesi, ein strategaeth arloesi. Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu, mewn partneriaeth â'r ecosystem yn ehangach, i godi ymwybyddiaeth ymhellach o effeithiau a manteision ymchwil ac arloesi a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Argymhelliad 4 - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gymorth pellach y gellir ei ddarparu i fusnesau bach a chanolig: gan gynnwys eu helpu gyda phroses ymgeisio UKRI, mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chaffael ac arian cyfatebol; ac i gyfeirio'n glir at yr holl ffrydiau ariannu amrywiol a'r cymorth sydd ar gael i gael mynediad atynt

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

Mae Tîm Arloesi Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth un i un, a chymorth un i nifer, i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau eraill yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o gystadlaethau cyllido UKRI perthnasol, a datblygu cynigion ar eu cyfer. Mae'r cymorth yn cynnwys adnabod partneriaid cydweithredol, cyfleoedd ariannu cyfatebol, datblygu cynigion cryf a, lle bo angen, darparu llythyrau o gefnogaeth. Rydym yn derbyn y gallai rhagor o gymorth gael ei ddarparu ac rydym wrthi'n ystyried ffyrdd y gallwn ehangu a chodi ymwybyddiaeth ymhellach o'r cymorth sydd ar gael.

Rydym yn derbyn yn rhannol yr argymhelliad i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chaffael ac arian cyfatebol. Mae'n ofynnol i holl awdurdodau cyhoeddus y DU, gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sicrhau bod eu cyllid yn cydymffurfio â thelerau Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Mae cyllid ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yn ddibynnol ar uchafsymiau'r llwybrau cydymffurfio â chymorthdaliadau perthnasol sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu ein dull o ariannu cyfatebol, ac opsiynau posibl ar gyfer mwy o hyblygrwydd, fodd bynnag, mae rheoleiddio cymorthdaliadau yn y DU yn fater a gedwir yn ôl ar hyn o bryd.

Mae'r byd caffael yng Nghymru wedi newid yn sgil cyflwyno tri darn o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y ffordd y bydd y sector cyhoeddus yn caffael yng Nghymru.

Dyma nhw:

- Deddf Caffael 2023 (Y Ddeddf)
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf SPPP)
- Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 (Deddf HSP)

Mae'r Ddeddf Caffael yn cynnwys darpariaethau i gefnogi busnesau bach a chanolig, gan gynnwys:

- Dyletswydd benodol ar awdurdodau contractio i ystyried sut i leihau a dileu'r rhwystrau y gallai busnesau bach a chanolig eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at gyfleoedd caffael cyhoeddus. Gall y rhwystrau hyn gynnwys prosesau tendro rhy gymhleth a'r gofyniad i gyflwyno dogfennau sawl gwaith, ac weithiau gall busnesau bach a chanolig gael eu hunain dan anfantais wrth gystadlu yn erbyn cwmnïau mwy gydag adnoddau ysgrifennu cynigion pwrpasol a mwy o brofiad o ran caffael yn y sector cyhoeddus.
- Mae'r rheolau newydd wedi'u symleiddio ac maent yn llai biwrocrataidd na'r Rheoliadau presennol, gan wneud contractau'r sector cyhoeddus yn fwy hygyrch i fusnesau bach a grwpiau gwirfoddol a chymunedol.
- Hefyd, bydd y platfform digidol canolog newydd yn rhoi rhybudd ychwanegol i fusnesau bach a chanolig ar weithgarwch caffael sydd wedi'i gynllunio a bydd yn eu galluogi i nodi a rheoli cyfleoedd caffael o bob rhan o'r DU ac o'r gwledydd y mae gan y DU gytundebau masnach â hwy.

At hynny, mae Datganiad Polisi Caffael Cymru, sy'n berthnasol i holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn cefnogi busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol lleol trwy brosesau ymgeisio ac adeiladu cadwyni cyflenwi lleol gwydn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/PO/0176/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddEconomy@senedd.cymru

1 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin yn gofyn am wybodaeth bellach am
bysgodfeydd yn dilyn y sesiwn graffu weinidogol gyffredinol ar 13 Mehefin. Rwy'n hapus i
ateb pob un o'ch cwestiynau:

Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer y sector pysgodfeydd a dyframaethu, a sut fyddwch chi'n eu cyflawni?

Rwy'n ymwybodol y bwriadodd y cyn Weinidog Materion Gwledig nodi dull strategol ar gyfer
pysgodfeydd a dyframaethu. Rwy'n deall bod hyn wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Cyngori
Gweinidogol ar gyfer Pysgodfeydd Cymru, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod â'r aelodau maes
o law. Rwy'n bwriadu bwrw ymlaen â'r ymrwymiad a byddaf yn nodi datganiad yn yr hydref.

Yn y cyfamser, rwy'n disgwyl i'n cyfeiriad yn y dyfodol aros fel y nodwyd yn flaenorol, gyda
rheolaeth gynaliadwy yn ganolog iddo, a'n bod yn canolbwyntio ar gyflawni Cynlluniau
Rheoli Pysgodfeydd a mesurau rheoli addasadol. Bydd pob un wedi'i gefnogi gan wyddoniaeth
a thystiolaeth, a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid.

Byddwn yn parhau i gyflawni yn unol â'n dyletswyddau statudol ac yn chwilio am gyfleoedd
a mentrau i gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a thyfu. Bydd ein rowndiau ariannu drwy Gynllun
Morol a Physgodfeydd Cymru wedi'u cynllunio i fod yn sail i'r holl flaenoriaethau i helpu i
gyflawni'r canlyniadau yr ydym i gyd am eu gweld. Rwy'n falch o ddweud bod nifer
sylweddol o bobl wedi dangos diddordeb yn Rownd 4 y Cynllun ac rydym yn ystyried y
ceisiadau ar hyn o bryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu
yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 18
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding
in Welsh will not lead to a delay in responding.

A ydych yn rhagweld y bydd y 22 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd ar y cyd y bwriedir eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn yn cael eu cyflawni?

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill, cyrff partner a rhanddeiliaid i ddatblygu Cynlluniau Rheoli drafft a fydd yn destun ymgynghoriad. Mae o hyd wedi bod yn rhaglen uchelgeisiol, a nodir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, yn bennaf am mai dim ond cam cyntaf y broses yw cyhoeddi'r Cynlluniau hyn ac mae angen gwaith ac adnoddau sylweddol i'w gweithredu.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill ynglŷn â'r amserlenni cyhoeddi ar gyfer y 22 cynllun ar y cyd, ac mae'n anochel y bydd yr Etholiad Cyffredinol yn cael effaith. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y bydd y gwaith o'u cyflwyno yn mynd rhagddo cyn gynted â phosibl a bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws pob Gweinyddiaeth.

Sut ydych chi'n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd terfynol, ac yn arbennig fod y cynlluniau'n sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru)?

Bydd y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn ddull allweddol i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy a reolir yn dda, gan helpu i gyflawni ymrwymïadau polisi'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r Amcanion Pysgodfeydd. Mae ffocws allweddol ar reoli ein hadnoddau yn gynaliadwy, sy'n unol â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Bydd y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn gosod cyfeiriad strategol ac yn darparu llwybr ar gyfer rheoli stociau allweddol gan gynnwys datblygu mesurau rheoli'r dyfodol a lliniaru effeithiau amgylcheddol.

Fel y nodais uchod, bydd pob Cynllun yn destun ymgynghoriad i sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru yn cael cyfle i roi mewnbwn, a bod eu barn yn cael ei chynrychioli.

Yn ogystal, cyhoeddwyd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar gyfer Draenogiaid Mor a Chregyn y Brenin ym mis Rhagfyr 2023 ac mae grwpiau cynghori rhanddeiliaid wedi'u sefydlu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynlluniau yng Nghymru. Bydd Cynlluniau Rheoli hefyd ar gyfer cregyn moch, cocos, crancod a chimychiaid yng Nghymru yn ystod cyfnod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd hwn. Disgwylir i'r Cynllun Rheoli ar gyfer Crancod a Chimychiaid gael ei gyhoeddi yn 2026. Gan weithio gyda sefydliadau partner, ym mis Ebrill cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyn ymgynghori llwyddiannus ledled Cymru ym Mangor, Ceinewydd ac Aberdaugleddau. Mae disgwyl y bydd cyfarfodydd cyn ymgynghori pellach yn cael eu cynnal ar draws yr haf a fydd yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli.

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf ar y pwnc pwysig hwn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs
Tudalen y pecyn 19

Jeremy Miles AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

01 Gorffennaf 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

Llythyr dilynol i'r cyfarfod ar 26 Mehefin 2024

Diolch am ddod i'n sesiwn graffu gyffredinol ar waith y gweinidog a'r sesiwn ar yr Economi Werdd ar 26 Mehefin. Oherwydd cyfyngiadau amser, roedd nifer o gwestiynau na chawsom gyfle i'w trafod yn y sesiwn, a nodir isod.

Porthladdoedd rhydd

Mae eich papur yn tynnu sylw at yr oedi y mae Etholiad Cyffredinol y DU wedi ei achosi i'r broses o gymeradwyo'r achosion busnes amlinellol ar gyfer dau borthladd rhydd Cymru ac o ran dynodi safleoedd treth. Beth yw eich amserlenni o ran gallu gwneud cyhoeddiadau ar y meysydd hyn gyda Llywodraeth nesaf y DU?

Roedd eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi y byddai angen cymeradwyaeth Gweinidog ar gyfer Achos Busnes Amlinellol Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan fod materion sylweddol i'w datrys. A yw'r materion hyn bellach wedi cael eu datrys i'ch boddhad, ac a ydych wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol?

Hefyd, fe groesawodd yr Aelodau eich cynnig i ysgrifennu at y Pwyllgor i roi cyngor ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amnewid a gwella diogeledd bwyd o amgylch cynhyrchion sylfaenol, ac i ddarparu mwy o wybodaeth am y rhesymau dros ohirio trafodaethau bargaen fasnach â Chanada a Mecsico. Croesawodd yr Aelodau hefyd eich ymrwymiad i gyhoeddi papur Llywodraeth Cymru ar ei hymagwedd at bolisi masnach a'r amcanion polisi trawsbynciol ar ôl yr etholiad cyffredinol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb ysgrifenedig i'r pwyntiau hyn.

Cofion cynnes



Paul Davies AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

We welcome correspondence in Welsh or English



Eitem 2.5

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

10 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Mae'n bleser gennyf rannu Dull Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Pholisi Masnach a bydd yn cael ei gyhoeddi ar 11 Gorffennaf 2024.

Diben y papur hwn yw nodi ein dull o ymdrin â pholisi masnach, ei sylfaen yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac egluro'r amcanion polisi trawsbynciol y credwn y dylai Llywodraeth y DU eu dilyn wrth negodi cytundebau masnach.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 22



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â Pholisi Masnach




Mehefin 2024

Tudalen y pecyn 23

“Datganiad

Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach yn seiliedig ar ein huchelgais i gynyddu ffyniant yng Nghymru, ein gwerthoedd, ein hymrwymadau ehangach i gynaliadwyedd a’n cyfrifoldebau drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae hyn yn cynnwys tyfu ein heconomi yn gynaliadwy, gwella allforion a denu mewnfuddsoddiad; gweithredu fel cenedl gyfrifol ar y llwyfan byd-eang; parchu a diogelu hawliau dynol; cymryd camau i ymateb i’r argyfwng hinsawdd byd-eang a diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr.



Pwrrpas



Pwrrpas y ddogfen hon yw nodi ein dull o ymdrin â'r Polisi Masnach, ei sylfaen yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac egluro'r amcanion polisi trawsbynciol y credwn y dylai Llywodraeth y DU eu dilyn wrth negodi cytundebau masnach.



Beth yw polisi masnach?

Mae polisi masnach yn cyfeirio at set o reolau, rheoliadau a chytundebau a sefydlwyd gan lywodraethau i lywodraethu eu gweithgareddau masnachu rhyngwladol. Mae'r polisiau hyn yn amlinellu'r telerau ar gyfer cyfnewid nwyddau, gwasanaethau a buddsoddiadau rhwng gwledydd. Yn draddodiadol, roedd polisiau masnach yn ceisio hybu twf economaidd a buddsoddiad, diogelu diwydiannau domestig, a sicrhau cystadleuaeth deg mewn marchnadoedd byd-eang.

Mae prif elfennau polisi masnach yn cynnwys tariffau (trethi ar nwyddau wedi'u mewnforio), cwotâu (cyfyngiadau ar faint o

nwyddau y gellir eu mewnforio), cymorthdaliadau (cymorth ariannol i ddiwydiannau domestig), a chytundebau masnach (cytundebau dwyochrog neu amlochrog rhwng gwledydd i hwyluso masnach). Mae polisi masnach hefyd yn cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â hawliau eiddo deallusol, safonau llafur, a mesurau diogelu amgylcheddol.

Gall polisi masnach hefyd gynnwys ysgogiadau i annog masnach gynhwysol, gan sicrhau mynediad at gytundebau masnach ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig a chael gwared ar rwystrau diangen i fasnach.



Cyd-destun

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r amgylchedd masnachu wedi newid yn gyfan gwbl. Wrth i'r byd newid, mae Cymru'n newid hefyd.


Mae ein ffyniant wedi dibynnu ar fasnach ers tro byd, gyda chyfleoedd yn agor o amgylch y byd yn ogystal â gartref yng Nghymru. Yr her ar y cyd i ni yng Nghymru yw nodi'r cyfleoedd hynny ac arfogi ein hunain i fanteisio arnynt i'r eithaf er mwyn hybu llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru, yn unol â'n gwerthoedd a'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae angen i'n polisi masnach yng Nghymru ategu ein Strategaeth Ryngwladol, sy'n nodi ein tair uchelgais graidd: codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, tyfu ein heconomi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad, a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae angen i'n polisi masnach hefyd fodloni ein hymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Allforio i wneud y canlynol:

“Sicrhau bod ein hallforwyr yn barod ar gyfer unrhyw amgylchedd masnachu newydd (gofynion) gyda'r UE, ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben wedi i'r DU ymadael â'r UE ac unrhyw gytundebau masnach rydd newydd eraill”.

Masnach a Datganoli



Mae penderfyniad y DU i ymadael â'r UE yn golygu y gall Llywodraeth y DU nawr negodi a chytuno ar gytundebau masnach newydd, gyda phartneriaid masnachu ledled y byd. Dim ond Llywodraeth y DU all ddod â'r Deyrnas Unedig gyfan i gytundebau masnach. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU wrth negodi cytundebau masnach ac mae gan y Senedd gymhwysedd i basio deddfau sy'n ymwneud ag arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Felly, mae gan Gymru ddiddordeb amlwg mewn cytundebau masnach gan y gallant effeithio ar ein pobl, ein lleoedd a'n busnesau, a chreu cyfleoedd a rhwymedigaethau rhyngwladol newydd. Y Senedd, a Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau mewn meysydd datganoledig.

Ein rôl mewn negodiadau yw hyrwyddo buddiannau Cymru fel bod Llywodraeth y DU yn negodi cytundebau sy'n creu cyfleoedd sydd o fudd i Gymru, sy'n cydfynd â'n gwerthoedd, ac nad ydynt yn tanseilio ein polisi domestig ein hunain.

Mae sicrhau manteision economaidd mewn negodiadau masnach yn hanfodol bwysig. Ochr yn ochr â hyn, mae masnach yn gysylltiedig yn ei hanfod â materion byd-eang eraill ac rydym am sicrhau bod ein gwerthoedd craidd wedi'u cynnwys yng nghytuniadau rhyngwladol y DU. Er enghraifft, roedd Cytundeb Masnach Rydd newydd y DU gyda Seland Newydd yn cynnwys darpariaethau trawsbynciol cynhwysfawr gan gynnwys penodau penodol ar yr Amgylchedd, Llafur, Datblygu a Masnach, a Chydraddoldeb Rhywiol.


Efallai y bydd gan wahanol wledydd wahanol ddulliau o ymdrin â materion, fel hawliau dynol a diogelu'r amgylchedd, a rhaid ystyried ymgysylltu â'r gwledydd hyn yn ofalus gan beidio eu diystyru.

Mae Cymru bob amser wedi ceisio dylanwadu ar newid drwy ymgysylltu rhyngwladol cadarnhaol, diplomyddiaeth gyhoeddus, ac arwain drwy esiampl gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan dderbyn bod newid sylweddol yn cymryd amser. Rydym yn defnyddio ein cysylltiadau a'n hymgysylltiad rhyngwladol i hyrwyddo ein gwerthoedd a'n diwylliant ac ni ddylai cytundebau masnach danseilio'r dull hwn o ymdrin.

Ymdrin â Pholisi Masnach drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, gyda'r nod o atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Roedd y Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, weithio i'w cyflawni, yn ogystal â phum ffordd o weithio y dylid eu defnyddio i'w cyflawni.





Dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i ddod â chytundebau rhyngwladol sy'n rhwymo'r DU i gyd, ond mae'n debygol y bydd unrhyw gytundeb masnach yn cael effeithiau hirdymor ar lesiant economaidd a chymdeithasol Cymru ac, felly, mae'r cysylltiad rhwng y nodau llesiant a pholisi masnach ryngwladol yn arwyddocaol. Bydd cytundebau masnach hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar allu Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, i gyflawni yn erbyn y nodau a'r amcanion a nodir yn y Ddeddf.

Er nad yw Llywodraeth y DU yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei harwain gan y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio wrth gyfleu ei blaenoriaethau i Lywodraeth y DU ac wrth ddadansoddi cytundebau masnach.

Yn hanesyddol, mae negodiadau masnach wedi canolbwyntio'n gul ar fanteision economaidd datblygu cysylltiadau masnachu agosach â phartneriaid masnachu eraill. Fodd bynnag, mae cytundebau masnach mwy diweddar wedi ehangu i gynnwys set ehangach o feysydd trawsbynciol fel busnesau bach a chanolig, grymuso economaidd ar gyfer menywod, llafur a newid yn yr hinsawdd. Ni ellir anwybyddu effaith cytundebau masnach ar feysydd polisi ehangach ac, os nad ydynt yn cael eu hystyried yn llawn, gall cytundebau masnach arwain at ganlyniadau anfwriadol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae cytundebau masnach yn creu rhwymedigaethau rhyngwladol sydd, mewn egwyddor, yn clymu cenedlaethau'r dyfodol. Gall y rhwymedigaethau hynny wyro dros amser oddi wrth ddyheadau polisi domestig a gallant fod yn gymhleth, gan gymryd llawer o amser i'w hailnegodi.

Mae'r effaith bosibl y gallai polisi masnach ei chael ar ein nodau llesiant, boed hynny drwy effeithio ar fusnesau, defnyddwyr, cymunedau, polisi domestig neu'r effaith a gawn yn fyd-eang, ar flaen ein meddwl. Yng Nghymru, rydym yn ystyried polisi masnach drwy lens Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal ag o safbwynt economaidd. Mae'r dadansoddiad rydym wedi'i gynnal ar gytundebau Awstralia, Seland Newydd a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) wedi cael ei wneud drwy'r lens hon, gan ystyried sut mae penodau o'r cytundebau hyn yn berthnasol i'r nodau llesiant cenedlaethol.

Sut Mae'r 7 Nod Llesiant Yn Dylanwadu Ar Bolisi Masnach

Mae'r saith nod Llesiant cenedlaethol wedi'u sefydlu yn ymwneud â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i lunwyr polisiau yng Nghymru roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith:

“

Gweithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau.

”

Yn sail i'r nodau hyn, mae'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wedi'i hymgorffori yn sylfaen datganoli yng Nghymru ers 1998. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn cynnwys pum ffordd o weithio sydd wedi'u bwriadu i ddangos arferion gorau ac i gefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Y rhain yw integreiddio, cydweithio, hirdymor, cynnwys ac atal.

Yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb i gysoni ein gwerthoedd polisi masnach â'r saith nod Llesiant a'r pum ffordd o weithio.

Cymru Lewyrchus

Sut gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru Lewyrchus:

- ◆ Rydym am weld cytundebau masnach yn datgloi masnach ychwanegol i fusnesau Cymru drwy roi hwb i'r economi a chynyddu cyflogau ledled Cymru, gan ddileu tariffau ar allforion nwyddau Cymru.
- ◆ Dylai unrhyw gytundeb masnach a negodir gan Lywodraeth y DU gynyddu gwaith teg yng Nghymru ac ni ddylai danseilio, na pheryglu, hawliau a gwarchodaeth bresennol y gweithwyr.
- ◆ Rydym eisiau gweld darpariaethau i helpu i gefnogi Busnesau Bach a Chanolig i fanteisio ar gytundebau masnach.
- ◆ Rydym eisiau gweld darpariaethau arloesi, gan gynnwys pennod arloesi ar wahân, yn cael eu cynnwys ym mhob cytundeb masnach i ddarparu mecanwaith i drafod arloesi ar fasnach. Dylai hyn gynnwys dulliau rheoleiddio, masnacheiddio technolegau newydd a chadernid cadwyni cyflenwi i sicrhau bod cytundebau masnach yn dal yn addas i'r diben wrth i'n heconomi dyfu.
- ◆ Byddem am weld mesurau diogelu priodol i atal diwydiannau domestig rhag effeithiau niweidiol mewnforion rhad.
- ◆ Dylai cytundebau masnach ystyried y defnydd cymesur ac effeithlon o adnoddau o ran yr hyn rydym yn ei fasnachu.


Nod: Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.

Cymru Gydnerth

Sut gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru Gydnerth:

- ◆ Rydym yn disgwyl y dylai darpariaethau amgylcheddol fod yn rhan allweddol o negodiadau masnach, ac na ddylai unrhyw gytundeb masnach effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymadau presennol yn ddomestig ac o dan gytundebau a chynghreiriau rhyngwladol (ee ein haelodaeth o'r Gynghrair Tu Hwnt i Olew a Nwy) neu ein hatal rhag gwneud ymrwymadau uchelgeisiol yn y dyfodol. Yn ychwanegol, ni ddylai cytundebau masnach geisio ailddatgan ymrwymadau neu dargedau rhyngwladol yn unig ond, yn hytrach, dylid eu defnyddio fel cyfle i wella a chryfhau ymrwymadau presennol.
- ◆ Byddwn bob amser yn gofyn i Lywodraeth y DU geisio darpariaethau uchelgais uchel i adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar yr amgylchedd, o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sicrhau lefelau uchel o warchodaeth amgylcheddol.
- ◆ Dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau sy'n cydnabod effaith masnach, ac yn annog cydweithredu, ym meysydd ansawdd aer, bioamrywiaeth, coedwigaeth gynaliadwy a rheoli amaethyddol, a'r amgylchedd morol.

Nod: Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).



Dylai cytundebau masnach
gynnwys darpariaethau sy'n
cydnabod effaith masnach,
ac yn annog cydweithredu,
ym meysydd ansawdd aer,
bioamrywiaeth, coedwigaeth
gynaliadwy a rheoli amaethyddol,
a'r amgylchedd morol.

Y Saith Nod Llesiant:

Cymru Iachach

Sut gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru Iachach:

- ◆ Rhaid i gytundebau masnach beidio â newid egwyddorion sylfaenol y GIG yng Nghymru ac yn y DU – gofal yn cael ei ddarparu am ddim i bawb yn ôl yr angen ac yn cael ei ariannu drwy drethiant cyffredinol.
- ◆ Ni ddylai pob cytundeb masnach sy'n cael ei negodi gan Lywodraeth y DU effeithio ar ein gallu i reoleiddio a bodloni ein hymrwymiaadau iechyd datganoledig.
- ◆ Byddem eisiau cytundebau masnach i helpu i gynyddu'r cyflenwad a mynediad at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ac i feddyginiaethau costeffeithiol.
- ◆ Dylid defnyddio cytundebau masnach i gael mynediad at ddewis ehangach o fwydydd iach cost isel.
- ◆ Dylai unrhyw gytundeb masnach sicrhau ein bod yn gallu cynnal ein safonau uchel ar fesurau iechydol a ffytoiechydol a bod mesurau i frwydro yn erbyn ymwrthedd gwrth-ficrobaidd yn cael eu cynnal a'u gwella.
- ◆ Mae ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. Rydym am sicrhau bod yr holl ddarpariaethau mewn cytundeb masnach yn cefnogi iechyd a llesiant y rheini yng Nghymru ac nad yw'n gwaethygu anghydraddoldebau iechyd.

Nod: Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Sut gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru sy'n Fwy Cyfartal:

- ◆ Dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau i helpu i leihau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar draws poblogaethau ac ardaloedd daearyddol, gan gynnwys mynediad at waith teg a chyfleoedd i fusnesau a phobl yng Nghymru gyfrannu at negodiadau masnach.
- ◆ Rydym am weld pennod ar wahân ar fasnach a rhywedd yn cael ei chynnwys yng nghytundebau masnach y DU, gan fod hyn yn rhoi arwydd clir i bartneriaid masnachu o bwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a gwella gallu menywod i fanteisio i'r eithaf ar gytundebau masnach. Byddem hefyd am weld darpariaethau sy'n gysylltiedig â rhywedd drwy gydol y cytundeb masnach.
- ◆ Dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau llafur gorfodadwy, gan gynnwys pennod llafur ar wahân gyda darpariaethau i orfodi 8 confensiwn craidd y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO).
- ◆ Rydym am weld asesiadau effaith realistig gan Lywodraeth y DU er mwyn i ni allu lliniaru'r effeithiau ar y sectorau a'r cymunedau yng Nghymru y gallai cytundeb masnach effeithio'n negyddol arnynt. Ni ddylai cytundebau masnach greu manteision i rai, ar draul anfanteision sylweddol i eraill.

Nod: Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Sut gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru o Gymunedau Cydlynus:

- ◆ Byddwn yn ei gwneud yn glir i Lywodraeth y DU y byddai cytundebau sy'n cael effeithiau anghymesur o negyddol ar sectorau penodol yn effeithio'n anochel ar y cymunedau o'u cwmpas. Er enghraifft, mae amaethyddiaeth yn arbennig o bwysig i gymunedau gwledig, gan ddarparu gweithgarwch economaidd a chyflogaeth. Mae'r un peth yn wir am ardaloedd eraill sy'n dibynnu'n drwm ar un sector penodol. Bydd cyfleoedd cyflogaeth ehangach, yn ogystal ag ystyriaethau iechyd (fel y nodir o dan 'llewyrchus' ac 'iachach' uchod) hefyd yn cael effaith ar gymunedau.
- ◆ Gallai cynnwys darpariaethau mewn cytundebau masnach i alluogi symudedd ieuenctid a symudedd busnes-i-fusnes hyrwyddo amrywiaeth a chyfrifoldeb byd-eang yn ein cenedlaethau i ddod.
- ◆ Dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau i wella gwasanaethau allweddol, a allai arwain at gymunedau mwy cysylltiedig.

Nod: Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Byddwn yn ei gwneud yn glir i Lywodraeth y DU y byddai cytundebau sy'n cael effeithiau anghymesur o negyddol ar sectorau penodol yn effeithio'n anochel ar y cymunedau o'u cwmpas. Er enghraifft, mae amaethyddiaeth yn arbennig o bwysig i gymunedau gwledig, gan ddarparu gweithgarwch economaidd a chyflogaeth.



Y Saith Nod Llesiant:

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Sut y gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru
â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:

- ◆ Byddwn yn egluro i Lywodraeth y DU drwy gydol negodiadau cytundebau masnach bod rhai sectorau, fel amaethyddiaeth, yn rhan annatod o gefnogi diwylliant Cymru a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Byddwn yn defnyddio ein gweithgareddau allforio, lle bo hynny'n briodol, i dynnu sylw at gryfder diwylliant Cymru a hunaniaeth genedlaethol fel ffactorau cadarnhaol o ran annog cyfleoedd masnach a mewnfuddsoddi sy'n deillio o gytundebau masnach.
- ◆ Byddem yn gofyn i lywodraeth y DU eithrio unrhyw ymrwymïadau a rhwymedigaethau a wnaed ar y diwydiant clyweledol (diwydiannau creadigol) oherwydd gallai'r darpariaethau hyn gael effaith negyddol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Nod: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.


Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Sut gallai cytundebau masnach gyfrannu at Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:

- ◆ Credwn y dylid defnyddio cytundebau masnach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol. Rydym am weld pennod benodol ar newid yn yr hinsawdd ym mhob cytundeb masnach, ynghyd â darpariaethau sy'n ymwneud â'r hinsawdd drwy gydol y cytundeb masnach. Ni ddylai cytundebau masnach geisio ailddatgan ymrwymadau neu dargedau rhyngwladol yn ymwneud â'r argyfwng hinsawdd yn unig ond, yn hytrach, dylid eu defnyddio fel cyfle i wella a chryfhau ymrwymadau presennol.
- ◆ Byddem eisiau gweld ymrwymadau cadarn o fewn cytundebau masnach i helpu i wella safonau lles anifeiliaid a bygythiad byd-eang ymrwrthedd gwrthficrobaidd.
- ◆ Dylai cytundebau masnach gynnwys pennod ar Fasnach a Datblygu i gydnabod pwysigrwydd masnach fel cyfrwng i hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol a lleihau tlodi. Dylai darpariaethau mewn cytundebau masnach ganiatáu ar gyfer monitro effeithiau'r cytundeb ar wledydd datblygedig.
- ◆ Dylid defnyddio cytundebau masnach fel platfform ar gyfer ymgysylltu adeiladol ynghylch yr amgylchedd, hawliau dynol, iechyd a chydaddoldeb.

Nod: Gwlad sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

Credwn y dylid defnyddio cytundebau masnach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol. Rydym am weld pennod benodol ar newid yn yr hinsawdd ym mhob cytundeb masnach, ynghyd â darpariaethau sy'n ymwneud â'r hinsawdd drwy gydol y cytundeb masnach.



Dylanwad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi “egwyddor datblygu cynaliadwy” ar waith sy'n golygu gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau.



Sut Mae'r 5 Ffordd O Weithio Yn Dylanwadu Ar Bolisi Masnach

Mae pum ffordd o weithio y mae angen inni eu hystyried er mwyn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dyma sut y byddwn yn defnyddio'r ffyrdd o weithio, a sut rydym am i Lywodraeth y DU gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, wrth negodi cytundebau masnach:



Cydweithio: Sut y gallai cydweithio ag unrhyw berson arall (neu sut y gallai gwahanol rannau o'r corff gydweithio) gynorthwyo'r corff i fodloni ei amcanion llesiant neu gynorthwyo corff arall i fodloni ei amcanion.

Yr hyn rydym yn ei ofyn gan Lywodraeth y DU:

- ◆ Parhau i ymgysylltu â llywodraethau datganoledig yn gyson, ar lefel Gweinidogion a swyddogol, a bod yn dryloyw drwyddi draw. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth y DU i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn rheolaidd â busnesau, undebau llafur, cyrff cyhoeddus a chymdeithas sifil yng Nghymru drwy gydol oes cytundeb masnach.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- ◆ Parhau i weithio'n agos ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru, a gyda'n hystod o randdeiliaid, i nodi'r cyfleoedd a'r risgiau posibl sy'n deillio o gytundebau masnach sy'n cael eu negodi gan Lywodraeth y DU. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn cael safbwynt Cymru ar gytundebau masnach posibl a sut gallai cytundebau masnach, o bosibl, helpu neu lesteirio ein nodau llesiant.




Integreiddio: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Yn benodol, lle gall camau a gymerir gan y corff gyfrannu at fodloni un amcan ond y gallent fod yn niweidiol i fodloni un arall.

Yr hyn rydym yn ei ofyn gan Lywodraeth y DU:

- ◆ Rhoi strategaeth polisi masnach gynhwysfawr ar waith sy'n nodi sut y dylai masnach ryngweithio â meysydd polisi allweddol fel yr amgylchedd, hawliau dynol, iechyd a chydarddoldeb.
- ◆ Cynnal asesiadau effaith cynhwysfawr cyn llofnodi cytundeb masnach i nodi effeithiau posibl ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys eu heffaith ar lywodraethau datganoledig.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- ◆ Byddwn yn parhau i ystyried polisi masnach drwy lens Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal ag o safbwynt economaidd. Mae'r dadansoddiad rydym wedi'i gynnal ar gytundebau Awstralia, Seland Newydd a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) wedi cael ei wneud drwy'r lens hon, gan ystyried sut mae penodau o'r cytundebau hyn yn berthnasol i'r nodau llesiant cenedlaethol.



Cynnwys: Pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.




Yr hyn rydym yn ei ofyn gan Lywodraeth y DU:

- ◆ Rhoi strwythurau ar waith i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl, busnesau, undebau llafur a chymdeithas sifil yng Nghymru. Dylid ymgysylltu drwy gydol oes y cytundeb masnach, o gwmpasu cytundeb hyd at weithredu a monitro drwy'r pwyllgorau a sefydlwyd o dan y cytundebau masnach.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- ◆ Sicrhau bod gan Grŵp Cyngori ar Bolisi Masnach Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg gynrychiolaeth o'r gwahanol sectorau busnes, cymdeithas sifil gan gynnwys cyrff cyhoeddus a'r byd academiaidd, a chynrychiolaeth Undebau Llafur. Mae'r Grŵp Cyngori ar Bolisi Masnach yn rhoi cyngor arbenigol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion polisi masnach ac mae'n helpu i lunio safbwynt Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio'n benodol at negodiadau masnach Llywodraeth y DU ar ôl Brexit.
- ◆ Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymgysylltu'n allanol gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys arweinwyr y sector, busnesau, undebau llafur, cymdeithas sifil, cyrff cyhoeddus fel lechyd Cyhoeddus Cymru, a'r byd academiaidd.





Meddwl am yr Hirdymor: Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd, yn enwedig pan fydd pethau sy'n cael eu gwneud i fodloni anghenion byrdymor yn gallu cael effeithiau hirdymor niweidiol.

Yr hyn rydym yn ei ofyn gan Lywodraeth y DU:

- ◆ Cynnal asesiadau effaith cynhwysfawr cyn llofnodi unrhyw gytundeb masnach. Dylai'r asesiadau effaith amlinellu effeithiau posibl cytundeb masnach ar y DU ac ar Gymru yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor ar draws pob sector.
- ◆ Ar ôl cadarnhau cytundeb, sicrhau bod asesiadau rheolaidd a thrylwyr o effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cytundebau masnach yn cael eu cynnal.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- ◆ Gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, ar draws amrywiaeth o sectorau, i ganfod effeithiau hirdymor posibl cytundeb masnach ar fusnesau a dinasyddion Cymru a chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU.
- ◆ Parhau i ymgysylltu â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i fonitro effaith y cytundeb masnach ar ôl ei gadarnhau i sicrhau ei fod yn parhau i fod o fudd i Gymru ac nad yw'n cael effaith negyddol ar ein nodau llesiant.



Atal: Sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu problem, gyfrannu at fodloni amcanion llesiant y corff, neu amcanion corff arall.




Yr hyn rydym yn ei ofyn gan Lywodraeth y DU:

- ◆ Ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid, gan gynnwys llywodraethau datganoledig a chymdeithas sifil, i nodi risgiau posibl cytundebau masnach yn ystod y broses gwmpasu a negodi.
- ◆ Monitro effaith cytundebau masnach newydd yn effeithiol i weld sut maen nhw'n cymharu â'r rhagamcanion cychwynnol. Dylai adroddiadau monitro fod yn gynhwysfawr, yn dryloyw ac yn cynnwys ymatebion rhanddeiliaid a dadleuon seneddol.
- ◆ Defnyddio'r pwyllgorau a sefydlwyd dan y cytundebau yn effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi o'r cytundeb – gan wahodd cyfraniadau gan lywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid perthnasol wrth gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgorau. Prif bwrpas pwyllgorau yw goruchwyllo'r gwaith o weithredu cytundebau masnach, sydd, yn gyffredinol, yn cynnwys monitro cydymffurfiaid â'r rhwymedigaethau a amlinellir yn y cytundeb masnach; trafod mynediad pellach i'r farchnad; adolygu a diwygio elfennau o'r cytundeb i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithlon; asesu effaith y cytundeb ar lif masnach; ac ymgysylltu â busnesau i ddeall heriau'r farchnad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- ◆ Gweithio gyda'n rhanddeiliaid i nodi risgiau posibl a allai gael mwy o effaith ar rai rhanbarthau neu sectorau yng Nghymru (er enghraifft, amaethyddiaeth) nag yng ngweddill y DU.
- ◆ Gweithio ar draws Llywodraeth Cymru, a gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid allanol, i gyfrannu tystiolaeth o safbwynt Cymru i bwyllgorau a sefydlwyd o dan y cytundebau masnach.



“ Y Dyfodol

Bydd ein polisi masnach yn parhau i gael ei ategu gan ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru lewyrchus, ein gwerthoedd, ein hymrwymadau ehangach i gynaliadwyedd a'n cyfrifoldebau deddfwriaethol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Edrych tua'r dyfodol

Byddwn yn parhau i weithredu fel cenedl gyfrifol ar y llwyfan byd-eang; parchu a diogelu hawliau dynol; cymryd camau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang a diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr.

Byddwn yn sicrhau bod ein gwerthoedd, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon, yn cael eu clywed a'u hystyried gan Lywodraeth y DU drwy gydol y broses o negodi cytundeb masnach, o gwmpasu cytundeb posibl hyd at ei roi ar waith. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ddadlau y dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau i weithredu fel platfform ar gyfer ymgysylltu adeiladol ynghylch yr amgylchedd, safonau defnyddwyr, hawliau gweithwyr, hawliau dynol, iechyd a chydaddoldeb.

Byddwn yn sicrhau bod ein hallforwyr yn barod ar gyfer amgylcheddau masnachu newydd i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd masnachu o ganlyniad i gytundebau masnach. Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau yng Nghymru i ddeall amodau, gweithdrefnau a rheoliadau masnachu mewn marchnadoedd allforio targed, gan gynnwys y rheini lle mae cytundebau masnach ar waith, fel rhan o'r broses o fodloni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio.



Paul Davies AS, Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.wales

10 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Mai 2024. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Rydych wedi gofyn nifer o gwestiynau:

Sut y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod gweithwyr Tata sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael?

Mae Cyngor Castell-nedd a Phort Talbot wedi lansio gwe-dudalen newydd sy'n cynnwys gwybodaeth am yr holl gefnogaeth sydd ar gael drwy'r [Ganolfan Wybodaeth am Broses Bontio Dur Tata - Cyngor Castell-nedd Port Talbot \(npt.gov.uk\)](#). Mae staff Cymru'n Gweithio a Chyngor Castell-nedd a Phort Talbot bellach yn cynnal sesiynau ddwywaith yr wythnos yng Nghlwb Cymdeithasol Dur Tata, ac mae gwybodaeth hefyd ar gael yn y Ganolfan Gyflogadwyedd yng nghanolfan siopa Aberafan. Mae grŵp cyfathrebu Tata wedi cwblhau pecyn cyngor newydd a fydd yn cael ei ddosbarthu'n eang i staff a rhanddeiliaid dros yr wythnosau nesaf. Bydd y pecyn yn sicrhau bod negeseuon cyson am y gefnogaeth sydd ar gael yn cael cyhoeddusrwydd eang. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag undebau sydd wedi bod wrthi'n dosbarthu gwybodaeth ac arweiniad ar y gefnogaeth sydd ar gael.

A oes unrhyw heriau o ran sicrhau mynediad at y gweithlu i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael iddynt?

Mae Tata wedi arddangos ystod o ddeunyddiau a chyhoeddiadau ar fyrddau gwybodaeth a sgriniau digidol o amgylch y safleoedd, ac mae gwybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen gan yr Adran Adnoddau Dynol drwy slipiau cyflog. Mae TUC Cymru wedi creu ystod o asedau gwybodaeth sydd ar gael i staff ym mhob safle. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r bobl iawn ar yr adeg iawn o fewn gweithlu Tata gan fod unigolion yn wynebu amgylchiadau gwahanol iawn ac nad oes hysbysiadau diswyddo wedi'u cyhoeddi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 51
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A yw'r cymorth sgiliau ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydweithredol, ac os nad yw, sut y gellir gwella hyn?

Mae'r holl asiantaethau cymorth wedi gweithio gyda'i gilydd o'r diwrnod cyntaf i sicrhau bod gweithwyr Dur Tata yn derbyn cyngor ac arweiniad diduedd o ran gyrfa, cyngor ariannol, a chymorth iechyd a lles. Mae cyngor ac arweiniad proffesiynol yn cynnwys gwybodaeth am y farchnad lafur a sgiliau fel bod gweithwyr yn gwneud penderfyniadau am y sgiliau y mae cyflogwyr sy'n recriwtio yn gofyn amdanynt, ac fel bod ganddynt fynediad at fecanwaith dibynadwy sy'n eu cyfeirio at y ddarpariaeth fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.

A oedd unrhyw ofynion ynghlwm wrth gyllid sgiliau Llywodraeth Cymru, er enghraifft y dylai unrhyw ardystiad ar gyfer cyrsiau gael ei gydnabod yn eang y tu allan i Tata?


Cafodd hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod 2016-2019 ei gynllunio'n benodol o amgylch cynlluniau gweithredol Tata, ac roedd yn gymysgedd o ddysgu achrededig a phenodol i Tata. Bryd hynny, roedd Tata yn ei gwneud yn ofynnol mynd ati mewn ffordd hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau a llenwi bylchau gwybodaeth. Un o nodau allweddol y cyllid oedd darparu sgiliau trosglwyddadwy i weithwyr y gallent eu defnyddio mewn mannau eraill. Yn ôl y *Gwerthusiad o Gymorth Sgiliau Llywodraeth Cymru ar gyfer Dur Tata*, yn y flwyddyn 2016-2017, roedd 96% o'r ymatebwyr o'r farn bod yr hyfforddiant wedi rhoi sgiliau trosglwyddadwy iddynt y gallent eu defnyddio gyda chyflogwyr eraill.

Ers peth amser bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio rhaglenni achrededig, er enghraifft drwy'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddarparu drwy raglen Cyfrifon Dysgu Personol, ac wrth gwrs yr ardystio sy'n deillio o gyflawni rhaglen brentisiaeth. Wrth i ddarparwyr dysgu gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig cefnogaeth fwy pwrpasol i Tata, maent wedi cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at Ddur Tata, a all wrth gwrs ddarparu a thalu am unrhyw hyfforddiant y maent yn ei ystyried yn berthnasol i'w staff.

A fydd unrhyw ofynion ynghlwm ag ariannu sgiliau yn y dyfodol, ar gyfer Tata ac yn ehangach, a bod yn rhaid i ardystiad gael ei gydnabod yn eang?

Byddwn yn parhau i ddarparu rhaglenni Cyfrifon Dysgu Personol, Prentisiaethau a ReAct+ gan eu bod yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur, ac wedi'u cynllunio i ddarparu cymwysterau, trwyddedau a sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language

Y Gwir Anrh Vaughan Gething AS
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

Jonathan Reynolds AS
Ysgrifennydd Gwladol Busnes a Masnach a
Llywydd y Bwrdd Masnach
Llywodraeth y DU

Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth y DU

18 Gorffennaf 2024

Annwyl Vaughan, Jonathan a Jo,

Dyfodol dur Cymru

Llongyfarchiadau ichi, Jo a Jonathan, ar eich penodiadau newydd. Fel cyflwyniad bras, fi sy'n cadeirio Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, sef un o bwyllgorau'r Senedd sydd wedi chwarae rôl arweiniol ar yr ymateb i gyhoeddiad Tata, a dyfodol dur Cymru. Rwy'n ymwybodol y gallai gymryd peth amser i sefydlu Pwyllgorau San Steffan yn dilyn yr etholiad cyffredinol, a hyd nes y bydd hynny'n digwydd rwy'n ymwybodol mai ein Pwyllgor ni yw'r unig Bwyllgor seneddol sy'n ystyried y mater hwn.

Ers mis Medi'r llynedd, rydym wedi cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth gyda'r chwaraewyr allweddol ar ddyfodol y diwydiant dur. Gyda Llywodraeth newydd ar waith ar lefel y DU, dyma achub ar y cyfle i

nodu safbwynt y Pwyllgor ar sail tystiolaeth ar ddyfodol dur Cymru, ac effaith cyfnod pontio arfaethedig Tata.

Mae hwn yn fater cymhleth iawn, ac rwyf wedi ceisio crynhoi llawer iawn o dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r llythyr hwn yn eithaf hir, felly rwyf wedi cynnwys trosolwg o'n safbwynt, a rhestr o'n hargymhellion ar y dechrau.

Trosolwg

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i sicrhau gwerth gorau am arian cyhoeddus, rydym o'r farn bod yn rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru fel ei gilydd, ystyried y mater yn fwy eang nag mewn termau ariannol yn unig. Rydym yn annog Llywodraethau'r DU a Chymru i fuddsoddi mewn ffordd sy'n cefnogi'r canlyniadau gorau, gan gynnwys ystyried yr angen cenedlaethol am ddur ac anghenion y gweithwyr, yn hytrach na chefnogi'r opsiwn rhataf.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gefnogi cadw Ffwrnais Chwyth 4. Teimlwn fod y ffwrnais chwyth yn dod â gwerth i Gymru a'r DU fel ased sofran, a'r swyddi o ansawdd da y mae'n eu darparu.

Rhaid inni ddod o hyd i ateb hirdymor sy'n gweithio i bawb. Nid yw'n hir ers i waith dur Port Talbot wynebu sefyllfa debyg o ran dyfodol ansicr, ac nid yw'n deg ar y gweithwyr na'u cymunedau i brofi'r pryder a ddaw yn sgil yr ansicrwydd hwn, am y trydydd tro.

Rydym o'r farn fod gan safle Port Talbot y potensial i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r DU i gynnal y gallu i gynhyrchu dur sylfaenol, i greu cynnyrch y gellir ei ddefnyddio i gefnogi ymdrechion i ddatgarboneiddio, ac i barhau i ddarparu swyddi cynhyrchiol o ansawdd da. Mae'n hanfodol bod Llywodraethau'r DU a Chymru, fel ei gilydd, yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Tata a'r undebau llafur i wireddu'r potensial hwn, ac i gefnogi'r gweithwyr dur, eu teuluoedd a'u cymuned.

Mae ein hargymhellion i gefnogi'r nodau hyn fel a ganlyn:

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth i sicrhau bod ffwrnais chwyth 4 yn parhau i weithredu drwy gydol y cyfnod pontio yn ei thrafodaethau â Tata.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion ar fyrder mewn meysydd datganoledig megis sgiliau a chaffael, sy'n ategu buddsoddiad Llywodraeth y DU yn Tata.

Argymhelliad 3: Unwaith y bydd cytundeb wedi'i gwblhau gyda Tata, dylai Llywodraeth y DU gynnal proses gadarn o ystyried y gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'i buddsoddiad ym Mhort Talbot. Dylai gyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwn.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth i sicrhau buddsoddiad ehangach yn safleoedd Tata fel rhan o'i thrafodaethau. Mewn achos lle y byddai'n darparu ateb gwell, dylai hyn gynnwys ystyried a ddylid cyd-fuddsoddi â chynhyrchwyr dur i ddatblygu'r buddsoddiadau hyn fel



adnodd a rennir ledled y DU, gan flaenoriaethu lleoli'r rhain yn y cymunedau hynny sy'n cynhyrchu dur yng Nghymru.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod undebau llafur yn chwarae rhan yng ngweddill ei thrafodaethau â Tata fel bod cyflogwyr ac undebau'n ymwybodol o'i disgwyliadau. Dylai Llywodraeth y DU, hefyd, weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu a chyhoeddi egwyddorion ar gyfer trafodaethau tebyg yn y dyfodol.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth i ddatblygu cynlluniau i ostwng prisiau trydan ar gyfer y sector dur a diwydiannau ynni-ddwys eraill.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno mesurau i gyfyngu ar allforion sgrap i wledydd sydd â safonau amgylcheddol is, a sicrhau bod cynhyrchwyr domestig yn defnyddio dur sgrap o ansawdd uchel yn y DU.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraethau Cymru a'r DU ill dau ystyried gosod targedau caffael ar gyfer defnyddio dur a gynhyrchir yn ddomestig mewn contractau seilwaith sector cyhoeddus. At hynny, dylent archwilio sut mae gwledydd eraill yn Ewrop wedi defnyddio cymalau caffael cymdeithasol ac amgylcheddol i gefnogi eu diwydiannau dur domestig, gan gyflwyno'r rhain lle y bo'n briodol.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth y DU fynd i'r afael â phryderon y diwydiant dur ynghylch Mecanwaith Addasu Ffin Carbon (neu CBAM) yr UE a chyflwyno'r broses o gyflwyno CBAM y DU i 2026, gan sicrhau ei fod wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion y diwydiant.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, fel ei gilydd, weithio ar gyflymder gyda'r Bwrdd Pontio i ddatblygu cynigion i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u diswyddo, a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau adferiad yn dilyn colli unrhyw swyddi. Dylai'r rhain ddysgu o arfer da yn y DU a thu hwnt, a dylent gynnwys ffocws ar bontio'r bwlch rhwng unrhyw golledion swyddi a'r posibiliadau tymor hwy a gyflwynir gan ddatgarboneiddio, ac ynni gwynt ar y môr, fel y bo'r angen.

Cadw Ffwrnais Chwyth 4, a sicrhau'r fargen orau gyda Tata

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws cynnar Llywodraeth newydd y DU ar y mater hwn, ac yn dymuno pob llwyddiant ichi yn eich ymdrechion i sicrhau bargaen sy'n gweithio i Tata, y gweithlu, a'n cymunedau sy'n cynhyrchu dur. Mae'n gwbl hanfodol i'r gweithwyr, y contractwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ein bod yn dod o hyd i ateb sy'n gweithio yn awr, ac yn y tymor hir.

Mae'r Pwyllgor wedi galw'n gyson am gadw Ffwrnais Chwyth 4 drwy'r cyfnod pontio ym Mhort Talbot, ac rydym yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai dyma'r llwybr gorau tuag at gyfnod o bontio sy'n gweithio i bawb. Fel y gwyddoch, ar 6 Chwefror pasiodd y Senedd benderfyniad unfrydol bod dyfodol hyfyw i wneud dur mewn ffwrnais chwyth fel rhan o drawsnewid cyfiawn i gefnogi economi Cymru, ac er mwyn amddiffyn un o asedau sofran y DU. At hynny, fe y gwyddoch, ar 4 Mehefin, pasiodd y Senedd – yn unfrydol – benderfyniad a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod cadw'r gallu i

gynhyrchu dur sylfaenol yn ganolog i fuddiannau economaidd Cymru, a'n proses o drawsnewid i sero net.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa ariannol heriol y mae Tata ynddi, ac yn derbyn nad yw colli £1 miliwn y dydd yn gynaliadwy i unrhyw fusnes. Rydym, hefyd, yn deall y pryderon a fynegwyd gan Tata mewn tystiolaeth ynghylch adeiladu ffwrnais arc trydan newydd, tra'n parhau i weithredu ffwrnais chwyth, ei bod am wneud y gorau o'r safle, a'r costau ychwanegol a fyddai'n deillio o'r dull a nodir yn y cynllun aml-undeb.

Roedd y dystiolaeth a glywsom gan yr undebau dur yn cydnabod y pryderon hynny, ac yn mynd i'r afael â hwy. Fe wnaeth Alisdair McDiarmid o undeb Community ddweud wrthym y byddai angen buddsoddiad pellach o £500 miliwn gan Lywodraeth y DU i gyflawni'r cynllun aml-undeb. Mae arbenigwyr yr undebau, Syndex, yn dod i'r casgliad y byddai'r cynllun aml-undeb yn sicrhau enillion cadarnhaol cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddiad dros y cyfnod pontio, y mae rheolwyr Tata yn cytuno â hynny, er y byddai'r cynllun aml-undeb yn sicrhau elw ariannol llai cadarnhaol na chynigion Tata. At hynny, canfu Syndex fod adeiladu ffwrnais arc trydan newydd, tra'n cynnal a chadw Ffwrnais Chwyth 4, yn gymhleth ond yn bosibl, ac, er bod yn rhaid cymryd pryderon diogelwch o ddifrif o safbwynt peiranyddol, mae yna ateb i'w gael o ran adeiladu'r ffwrnais arc, tra bod y BOS ar waith.

Yn amlwg, nid ydym yn arbenigwyr mewn cynhyrchu dur ac felly ni allwn ddod i unrhyw gasgliadau ar faterion technegol, ond rydym wedi ceisio gwrandao ar yr holl ddadleuon a wnaed ar ddichonoldeb y cynigion a gyflwynwyd gan Tata a'r undebau i lywio ein barn. Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa lawer gwell i roi sylwadau ar gostau dynol a strategol y cyfnod pontio, yn enwedig o ystyried profiad Cymru o golli swyddi ar raddfa fawr yn y sectorau glo a dur.

Rydym o'r farn y dylai'r Llywodraeth gymryd golwg ehangach nag edrych ar y llinell waelod yn unig, ac y dylai buddsoddiad y Llywodraeth gefnogi'r canlyniad gorau yn hytrach na'r rhataf. Rydym yn rhannu barn Community y bydd costau strategol dynol a hirdymor cyffredinol bwrw ymlaen â chynigion Tata yn llawer uwch na'r rheini sy'n deillio o'r cynllun aml-undeb. Fe wnaeth Dr Dean Stroud o Brifysgol Caerdydd dynnu sylw at effeithiau diswyddiadau ar raddfa fawr, gan ddweud eu bod yn cynnwys diweithdra i genhedlaeth ar raddfa eang, diffyg gwaith, lefelau uchel o anweithgarwch economaidd, mwy o afiechyd, lefelau uchel o amddifadedd, a hefyd colli sgiliau o'r rhanbarth, sydd i gyd yn dod ar gost sylweddol i'r pwrs cyhoeddus.

Rhaid ystyried effeithiau ehangach y cynigion ar gymunedau sy'n cynhyrchu dur. Fe wnaeth yr Athro Dave Worsley o Brifysgol Abertawe ddweud wrthym bod o leiaf tair swydd ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi yn dibynnu ar bob swydd uniongyrchol ar safle Tata ym Mhort Talbot, a phan gaiff y gymuned ehangach ei dwyn i ystyriaeth, bod pum swydd yn dibynnu ar bob swydd uniongyrchol. Mae dadansoddiad yr Athro Calvin Jones o Brifysgol Caerdydd yn awgrymu y gallem weld colledion cyflog blynyddol o £200 miliwn ym Mhort Talbot o ganlyniad i gynlluniau Tata.



Ar sail yr holl dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed, dyma alw ar Lywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i sicrhau bod Ffwrnais Chwyth 4 yn parhau i weithredu drwy'r cyfnod pontio yn ei thrafodaethau â Tata.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae hefyd i sicrhau bargaen well. Mae'n rhaid iddi weithio ar frys, er mwyn deall sut y gall hi ategu'r hyn y gall Llywodraeth y DU ei gynnig i Tata mewn meysydd datganoledig, megis sgiliau a chaffael. Yna dylid cynnwys yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig fel rhan o becyn cyffredinol o fuddsoddiad cyfunol gan y naill Lywodraeth a'r llall.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth i sicrhau bod ffwrnais chwyth 4 yn parhau i weithredu drwy gydol y cyfnod pontio yn ei thrafodaethau â Tata.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion ar fyrder mewn meysydd datganoledig megis sgiliau a chaffael, sy'n ategu buddsoddiad Llywodraeth y DU yn Tata.

Penderfyniad tymor hir

Rhaid i unrhyw benderfyniad fod ar gyfer yn awr, ac ar gyfer y tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU y bydd gwarantau swyddi yn rhan o'i drafodaethau gyda Tata. Fel y cawsom wybod gan Unite, mae'n bwysig bod telerau ac amodau cryf yn cyd-fynd ag unrhyw gyllid a fydd yn arwain at gadw swyddi o ansawdd da, a chyfnod teg o bontio ar gyfer y gweithwyr.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Tata eisoes wedi cael cefnogaeth llywodraethol sylweddol. Mae'r sefyllfa bresennol, a'r argyfwng yn 2016, wedi gosod straen sylweddol ar weithwyr, eu teuluoedd a chymunedau sy'n cynhyrchu dur. Mae'n bwysig, yn dilyn y cymorth sylweddol sydd wedi'i gynnig, bod Tata mewn sefyllfa i barhau i weithredu'r gwaith yn gynaliadwy, heb chwistrelliad sylweddol arall o arian cyhoeddus yn y dyfodol. At hynny, mae'n bwysig bod y fargen a wnaed rhwng Llywodraeth y DU a Tata yn sicrhau bod y dur a ddefnyddir mewn tyrbinau gwynt fydd yn arnofio yn y Môr Celtaidd yn cael ei wneud yng Nghymru. Rydym am weld cytundeb a fydd yn caniatáu i'w gweithwyr barhau i gefnogi economi Cymru yn gynhyrchiol, heb ofni colli eu swyddi.

O ystyried maint buddsoddiad Llywodraeth y DU, a'r dadlau sy'n gysylltiedig â chynlluniau Llywodraeth flaenorol y DU, mae'r Pwyllgor yn gryf o'r farn bod yn rhaid cynnal adolygiad cadarn o'r gwersi a ddysgwyd unwaith y bydd dyfodol y gwaith wedi'i sicrhau. Mae'n debygol y gwelwn drawsnewidiadau tebyg ar draws y DU, ac mae'n hanfodol bod y cymunedau hynny'n cael eu trin yn deg, ac yn cael eu cefnogi'n dda yn ystod y cyfnod pontio gan eu cyflogwyr a chyrrff cyhoeddus perthnasol. Dylid cyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwn mewn ffordd sy'n caniatáu i gymunedau a sectorau y mae eu trawsnewidiadau eu hunain yn effeithio arnynt ddysgu o'r hyn a weithiodd, a'r hyn na weithiodd.

Argymhelliad 3: Unwaith y bydd cytundeb wedi'i gwblhau gyda Tata, dylai Llywodraeth y DU gynnal proses gadarn o ystyried y gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'i buddsoddiad ym Mhort Talbot. Dylai gyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwn.

Buddsoddiad ehangach yn safleoedd Tata

Mae'r Pwyllgor wedi cael ei galonogi gan adroddiadau bod trafodaethau wedi cynnwys ffocws ar fuddsoddiad ehangach yn y dyfodol, a byddai'n annog pob parti i fwrw ymlaen â hyn lle gellir gwneud achos da.

Mae Tata yn agored i fuddsoddiad pellach, ac wedi dweud y bydd yn ystyried yr achos dros waith Rhydwytho Haearn Uniongyrchol (neu DRI) os yw amodau busnes a buddsoddiad y Llywodraeth yn iawn. Fe wnaeth Ben Burggraaf o Ddiwydiant Sero Net Cymru ddweud wrthym y dylai gorsaf bŵer Bae Baglan, sydd wedi'i datgomisiynu ac sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r rhwydwaith trawsyrru nwy naturiol, fod yn ddigon mawr i gynnal safle gwaith DRI sy'n cynhyrchu 3 miliwn tonnall y flwyddyn. Rydym yn ymwybodol o bryderon, yn enwedig gan undeb Community a Syndex, ynghylch a oes achos busnes i Tata fuddsoddi mewn ffatri DRI. Fodd bynnag, dywedodd Community a'r Athro Dave Worsley wrthym fod gwell achos gwell dros gyfleuster DRI a rennir, y gellir ei ddefnyddio gan holl gynhyrchwyr dur y DU. O ystyried y seilwaith sydd ar gael yn ardal Port Talbot, credwn fod hyn yn ei gwneud yn ddewis da ar gyfer lleoliad cyfleuster DRI a rennir, os mai dyma'r opsiwn a ffefrir.

Clywsom hefyd gan Unite a Community am y potensial ar gyfer adeiladu melin blatiau ym Mhort Talbot sydd, yn ôl yr hyn a deallwn, yn rhan o'r trafodaethau parhaus. Fe wnaeth Alisdair McDiarmid amlygu'r angen am felin blatiau yn y DU. Tynnodd Peter Hughes o Unite sylw at bwysigrwydd melin blatiau ar gyfer gwneud tyrbinau gwynt alltraeth sy'n arnofio, gan ddweud y gellir, mewn gwirionedd, wneud popeth sy'n mynd allan i Fôr Iwerddon ym Mhort Talbot, ei adeiladu ym Mhort Talbot, ei gynhyrchu ym Mhort Talbot, a safleoedd gweithgynhyrchu.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth i sicrhau buddsoddiad ehangach yn safleoedd Tata fel rhan o'i thrafodaethau. Mewn achos lle y byddai'n darparu ateb gwell, dylai hyn gynnwys ystyried a ddylid cyd-fuddsoddi â chynhyrchwyr dur i ddatblygu'r buddsoddiadau hyn fel adnodd a rennir ledled y DU, gan flaenoriaethu lleoli'r rhain yn y cymunedau hynny sy'n cynhyrchu dur yng Nghymru.

Cysylltiadau diwydiannol

Drwy gydol ein gwaith, rydym wedi clywed pryderon sylweddol gan yr undebau ynghylch lefel eu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn wedi'i grynhoi gan Alisdair McDiarmid wnaeth ddweud wrthym y bu'r ffordd y cynhaliwyd y trafodaethau rhwng Tata a'r Llywodraeth yn annerbyniol, heb unrhyw gysylltiad ag undebau llafur o gwbl. Fe wnaeth Charlotte Brumpton-Childs o'r GMB dynnu sylw at y ffaith, tra bod manylion y fargen wedi'u bwydo drwy'r cyfryngau, eu bod wedi gorfod rhoi'r darnau at ei gilydd cyn cael cyfarfod iawn gyda'r busnes. Rydym yn disgwyl gweld



mwy o gyfranogiad undebau mewn trafodaethau tebyg yn y dyfodol, ac wedi cael ein calonogi o glywed bod yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Fusnes a Masnach wedi cyfarfod â gweithwyr ac undebau yn ei wythnos gyntaf yn y rôl.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor wedi bod yn siomedig o glywed bod Tata wedi ceisio tansilio hawliau gweithwyr, drwy fygwth lleihau haelioni taliadau dileu swyddi gwirfoddol pe bai camau diwydiannol yn cael eu cymryd, er ein bod yn falch o glywed bod Tata bellach wedi ailgadarnhau ei ymrwymiad i gynnig pecyn dileu swydd uwch yn ystod y cylch presennol o ddileu swyddi gwirfoddol. Cawsom sioc, hefyd, gan y tactegau a ddefnyddiwyd gan Tata mewn perthynas â'r gweithredu diwydiannol arfaethedig gan aelodau Unite, a oedd, yn ein barn ni, yn rhoi pwysau annerbyniol ar weithwyr. Fodd bynnag, rydym yn falch o glywed bod Tata a'r undebau bellach yn eu holau'n trafod gyda Llywodraeth y DU ar fargen well, ac ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y cwmni a'i weithlu.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod undebau llafur yn chwarae rhan yng ngweddill ei thrafodaethau â Tata fel bod cyflogwyr ac undebau'n ymwybodol o'i disgwyliadau. Dylai Llywodraeth y DU, hefyd, weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu a chyhoeddi egwyddorion ar gyfer trafodaethau tebyg yn y dyfodol.

Strategaeth ddiwydiannol

Sylwn fod Llywodraeth newydd y DU wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol, a sefydlu Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol gyda chynrychiolaeth o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Roedd yr undebau o'r farn bod absenoldeb strategaeth ddiwydiannol wedi cyfrannu at yr heriau y mae'r diwydiant dur yn eu hwynebu, gydag Alisdair McDiarmid yn dweud bod diffyg ymagwedd hirdymor wedi arwain at ychydig o gynnydd wrth fynd i'r afael â gofynion allweddol y diwydiant. Fe wnaeth yr Athro Vera Trappmann o Brifysgol Leeds ddweud wrthym y byddai gweithredu'n gynharach a chael strategaeth ddiwydiannol sy'n edrych ar ddatgarboneiddio wedi bod yn ddull gwell o ymdrin â'r heriau ym Mhort Talbot. Mae hyn yn cyd-daro â'r dystiolaeth a glywsom gan Tata, a ddywedodd wrthym, er mwyn i'r diwydiant dur wneud cynnydd, fod angen i'r DU gynyddu cyfraniad gweithgynhyrchu i'r economi ac, yn eu tyb hwy, fod angen strategaeth ddiwydiannol newydd.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai dur Cymru fod wrth wraidd unrhyw strategaeth ddiwydiannol newydd. Rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU gydweithio i gyflawni hyn, a helpu i gefnogi dyfodol cynhyrchu dur Cymru a'r swyddi cysylltiedig o ansawdd da.

Cefnogi diwydiant dur Cymru wrth symud ymlaen

Bydd cynhyrchu dur ffwrnais arc trydan yn chwarae rhan fawr wrth ddatgarboneiddio'r diwydiant dur, nid yn unig yn y DU, ond ledled Ewrop. Cododd arbenigwyr nifer o faterion allweddol gyda ni sy'n hollbwysig i gefnogi'r diwydiant dur drwy gydol ei gyfnod o drawsnewid i gynhyrchu dur gan ddefnyddio ffwrnais arc trydan, gyda chonsensws eang rhwng cynhyrchwyr dur, undebau ac



arbenigwyr annibynnol. Dyma annog Llywodraethau'r DU a Chymru i flaenoriaethu'r materion hyn fel rhan o'u gwaith i osod dur wrth galon strategaeth ddiwydiannol.

Prisiau ynni

Mae dadansoddiad gan UK Steel yn amlygu bod cynhyrchwyr dur Prydain yn talu mwy na dwywaith cymaint am eu trydan na chystadleuwyr yn Ffrainc a Sbaen. Mae UK Steel wedi dweud, er bod y cymorth a ddarperir gan Uwchdaniwr Diwydiant Prydain i'w groesawu, mae penderfyniadau eraill a wnaed gan Lywodraeth flaenorol y DU ar ddiwygiadau i'r farchnad drydan yn golygu bod y polisi presennol ar brisiau trydan fel rhoi ag un llaw, tra'n cymryd gyda'r llaw arall.

Fe wnaeth Celsea Steel ddweud wrthym y dylai Llywodraeth y DU weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb â chenhedloedd Ewropeaidd eraill drwy leihau taliadau rhwydwaith a diwygio'r farchnad drydan gyfanwerthol. Maen nhw'n dweud y byddai hyn yn golygu datgysylltu prisiau trydan o nwy, a gwneud y mwyaf o ffynonellau ynni adnewyddadwy i leihau costau ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys fel dur. Fe wnaeth Ben Burggraaf ddweud wrthym bod cystadleuwyr fel Ffrainc a'r Almaen yn cytuno ar gytundebau prynu pŵer tymor hwy gyda busnesau ynni-ddwys fel gwneuthurwyr dur, sy'n cael gwared ar anweddolrwydd prisiau. Dywedodd, wrth i'r defnydd o ynni adnewyddadwy gynyddu yng Nghymru, y gallai hyn fod yn ffordd ymarferol o ostwng prisiau.

Gyda'r symudiad tuag at gynhyrchu dur gan ddefnyddio ffwrnais arc trydan, bydd gweithredu prydlon i ostwng y prisiau trydan a delir gan y sector dur yn dod yn bwysicach fyth. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda'r sector i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth i ddatblygu cynlluniau i ostwng prisiau trydan ar gyfer y sector dur a diwydiannau ynni-ddwys eraill.

Rheolaethau dur sgrap

Fe wnaeth Tata ddweud wrthym, o'r dros 10 miliwn tonnell o ddur sgrap a gynhyrchir yn y DU bob blwyddyn, bod 8 miliwn tonnell yn cael ei allforio. Maen nhw wedi dweud bod y cyflenwad helaeth o ddur sgrap yn un rheswm iddyn nhw ddewis symud i gynhyrchu dur gan ddefnyddio ffwrnais arc trydan, ond maen nhw'n disgwyl y bydd llawer o waith i'w wneud i ddatblygu cadwyn gyflenwi ddomestig.

Clywsom fod angen i Lywodraeth y DU gymryd camau i sicrhau bod gan Tata a chynhyrchwyr domestig eraill fynediad at gyflenwad digonol o ddur sgrap a ddaw o'r DU, yn enwedig y sgrap o ansawdd uchel sydd ei angen i wneud cynhyrchion sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf. Fe wnaeth Celsa ddweud wrthym y gallai cyfyngu ar allforio dur sgrap i wledydd â safonau amgylcheddol is helpu i gadw sgrap o ansawdd uchel o fewn y DU, a bod mesurau tebyg yn cael eu rhoi ar waith yn yr UE. Fe wnaeth Alisdair McDiarmid a'r Athro Dave Worsley alw am fesurau i ddiogelu sgrap y gellir ei



ddefnyddio i wneud y duroedd o ansawdd uchel a ddefnyddir ym Mhort Talbot, y mae'n debygol y bydd angen iddynt gynnwys deddfwriaeth a rheolaethau allforio.

Mae symud tuag at fwy o ddefnydd o ddur sgrap y DU gan gynhyrchwyr domestig yn cyflwyno cyfleoedd economaidd ac amgylcheddol. I wneud y gorau o'r rhain, rydym o'r farn bod angen gweithredu i gyfyngu ar allforion i wledydd sydd â safonau amgylcheddol is, ac i sicrhau bod sgrap o ansawdd uchel yn cael ei ddefnyddio gan gynhyrchwyr y DU.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno mesurau i gyfyngu ar allforion sgrap i wledydd sydd â safonau amgylcheddol is, a sicrhau bod cynhyrchwyr domestig yn defnyddio dur sgrap o ansawdd uchel yn y DU.

Caffael cyhoeddus

Fe wnaethom glywed gan yr undebau bod tua 40 y cant o'r dur a ddefnyddir mewn prosiectau seilwaith yn y DU yn dod o'r tu allan i'r DU. Fe ddywedodd Alisdair McDiarmid wrthym y gellid gwneud hanner hynny yn y DU, a galwodd am gyflwyno targedau caffael a chymalau cymdeithasol ac amgylcheddol, fel sy'n wir yn Ffrainc a'r Almaen.

Mae cynhyrchwyr dur ac undebau wedi galw am gamau gan y Llywodraeth mewn perthynas â chaffael. Fe wnaeth Celsa ddweud wrthym bod angen i Lywodraeth Cymru drosoli caffael cyhoeddus i ffafrio dur a gynhyrchir yn ddomestig. Dywed mai un ffordd y gellid cyflawni hyn yw gosod targedau cynnwys lleol ar gyfer prosiectau sector cyhoeddus, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â seilwaith gwyrdd fel tyrbinau gwynt a chyfleusterau hydrogen. Mae Tata wedi galw ar Lywodraeth y DU i osod targedau ar gyfer dur a wneir yn ddomestig mewn prosiectau cyhoeddus, ac i gymell y sector preifat i gyrchu dur o gadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu domestig.

Gall caffael fod yn ysgogiad pwerus ar gyfer cefnogi economïau lleol, ac nid yw caffael dur yn eithriad. Fodd bynnag, yn hanner yr achosion lle mae prosiectau seilwaith cyhoeddus yn defnyddio dur o'r tu allan i'r DU, rydym yn pryderu y gallai cynhyrchion a wnaed yn y DU fod wedi cael eu defnyddio. Dyma alw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i gymryd camau i fynd i'r afael â hyn, a'i achosion posibl.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraethau Cymru a'r DU ill dau ystyried gosod targedau caffael ar gyfer defnyddio dur a gynhyrchir yn ddomestig mewn contractau seilwaith sector cyhoeddus. At hynny, dylent archwilio sut mae gwledydd eraill yn Ewrop wedi defnyddio cymalau caffael cymdeithasol ac amgylcheddol i gefnogi eu diwydiannau dur domestig, gan gyflwyno'r rhain lle y bo'n briodol.

Mecanwaith Addasu Ffin Carbon

Fe wnaeth Llywodraeth flaenorol y DU amlinellu cynlluniau i gyflwyno Mecanwaith Addasu Ffin Carbon (neu CBAM) ar gyfer sectorau o'r economi sy'n defnyddio llawer o allyriadau, o 2027 ymlaen. Fodd bynnag, mae cynhyrchwyr dur wedi galw am gyflwyno hyn i ddiogelu'r DU rhag mewnforyn

dur carbon-ddwys, gan y bydd CBAM yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i fewnforwyr yr UE wneud taliadau yn seiliedig ar lefelau allyriadau cynhyrchion sy'n defnyddio llawer o allyriadau, o 2026 ymlaen.

Fe wnaeth Celsa ddweud wrthym y gall gwneud hyn o flaen amserlen yr UE ddiogelu marchnad ddur y DU, ac y bydd cydnabyddiaeth ar y cyd â CBAM yr UE yn atal dargyfeirio masnach ac yn sicrhau chwarae teg i gynhyrchwyr y DU. Mae Tata wedi galw am ddwyn CBAM y DU yn ei flaen i 2026, ac yn dweud y bydd angen iddo gael ei gynllunio'n ofalus i osgoi canlyniadau annymunol. Maen nhw'n dweud – o dan gynigion presennol, nad ydyn nhw'n mynd i'r afael â mewnforio nwyddau sy'n cynnwys dur a deunyddiau cystadleuol – bod yna risg uchel y bydd gweithgynhyrchwyr yn symud eu gweithrediadau y tu allan i'r DU a'r UE, ac yn mewnforio nwyddau gorffenedig carbon-ddwys i'r naill farchnad a'r llall.

Rydym yn cefnogi cynhyrchwyr dur Cymru i alw am ddwyn y broses o gyflwyno CBAM y DU ymlaen, i gyd-fynd â chyflwyno newidiadau i'r UE, er mwyn mynd i'r afael â'r risg y gallai mewnforion carbon-ddwys posibl effeithio arnynt.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth y DU fynd i'r afael â phryderon y diwydiant dur ynghylch Mekanwaith Addasu Ffin Carbon (neu CBAM) yr UE a chyflwyno'r broses o gyflwyno CBAM y DU i 2026, gan sicrhau ei fod wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion y diwydiant.

Gwaith y Bwrdd Pontio yn y dyfodol

Mae sicrhau trosglwyddiad cyfiawn ar gyfer y gweithlu yn hollbwysig. Dyma groesawu ailsefydlu'r Bwrdd Pontio yn brydlon gan Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, a'r ffaith ei bod wedi comisiynu asesiad cyflym o ba gymorth y gellir ei gynnig ar unwaith i weithwyr a chymunedau.

Ochr yn ochr â'r cyllid a ddyrannwyd i'r Bwrdd Pontio, dull gweithredu Llywodraeth flaenorol y DU oedd edrych ar fuddsoddiadau hirdymor megis tyrbinau gwynt sy'n arnofio yn y môr, a'r porthladd rhydd. Er ein bod yn cydnabod manteision y buddsoddiadau hyn, rydym, hefyd, yn hynod ymwybodol o'r angen i bontio'r bwlch rhwng unrhyw golledion swyddi a'r buddsoddiadau hirdymor hynny sy'n dwyn ffrwyth.

Cawsom wybod gan Dr Dean Stroud am yr angen i ddysgu gwersi yn sgil cau gwaith tunplat Glynebwy, a'r angen i ganolbwyntio ar greu swyddi sy'n diwallu anghenion y gweithlu, a chyfleoedd ailhyfforddi sy'n adlewyrchu realiti'r farchnad lafur leol.

Clywsom, hefyd, fod Dyffryn y Ruhr yn yr Almaen yn enghraifft o drawsnewid diwydiannol cymharol lwyddiannus, gyda Dr Stroud yn dweud wrthym bod uwchsgilio gweithwyr cyn cau'r meysydd glo wedi arwain at allu gwneud gwaith medrus, gyda gwerth ychwanegol a chyflogau uchel. At hynny, tynnodd Dr Stroud sylw at y rôl a chwaraeir gan bartneriaeth gymdeithasol wrth sicrhau'r canlyniadau hyn.



Clywsom gan yr Athro Vera Trappmann fod lwfansau gwaith tymor byr ac asiantaethau trosglwyddo wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth eu defnyddio yn yr Almaen. Tra bod y Llywodraeth yn mynd i gostau wrth dalu cyflogau gweithwyr, fe ddywedodd hi wrthom fod y buddion yn enfawr, gan fod llawer o effeithiau diswyddo yn cael eu hatal.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, fel ei gilydd, weithio ar gyflymder gyda'r Bwrdd Pontio i ddatblygu cynigion i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u diswyddo, a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau adferiad yn dilyn colli unrhyw swyddi. Dylai'r rhain ddysgu o arfer da yn y DU a thu hwnt, a dylent gynnwys ffocws ar bontio'r bwlch rhwng unrhyw golledion swyddi a'r posibiliadau tymor hwy a gyflwynir gan ddatgarboneiddio, ac ynni gwynt ar y môr, fel y bo'r angen.

Ar ran y Pwyllgor, dyma ddymuno bob llwyddiant ichi wrth sicrhau'r fargen orau bosibl sy'n gweithio i'r cwmni, ei weithlu, a chymunedau sy'n cynhyrchu dur. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



UK Government
Llywodraeth y DU



Department for
Energy Security
& Net Zero



Department for
Business & Trade

Sarah Jones MP

Minister of State for Industry
Department for Energy Security &
Net Zero and Department for
Business and Trade

Rt Hon Jo Stevens MP

Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

By email: seneddeconomy@senedd.wales

9 August 2024

Dear Paul,

Thank you for your letter, regarding the future of Welsh steel.

You raise that Port Talbot Steelworks and the wider region requires a long-term solution to deliver sustainably made steel. This Government believes that a better deal can be reached with Tata Steel to achieve this. Our manifesto committed £2.5 billion to rebuild the steel sector, on top of the £500 million already earmarked for Tata's Port Talbot steelworks. This funding will harness public and private investment to secure jobs and boost growth across the UK, and we will be working on future opportunities with the company.

As we engage with Tata Steel and the Trade Unions, we will reflect on your recommendations and provide further information in due course.

Under the chair of the Secretary of State for Wales, the Port Talbot Tata Steel Transition Board has now moved from discussion to delivery, following its first meeting under a new Government on 11 July. The Secretary of State has emphasised that the Transition Board's key aim must be to minimise the economic shock of Tata Steel UK's decision, while ensuring individuals and the supply chain are able to take advantage of future opportunities in and around Port Talbot.

We are pleased to see action from Tata Steel UK including commitment to an enhanced redundancy package and opening of an expression of interest process for voluntary

departures. In line with the Transition Board's developing actions to support reskilling of those affected, Tata Steel UK has begun work with Bridgend College to offer their workforce in Port Talbot the opportunity to convert skills gained into nationally recognised qualifications, opening the door to future employment.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to be 'SJ' followed by a long horizontal stroke.

Sarah Jones MP
Minister of State for Industry
Department for Energy Security &
Net Zero and Department for
Business and Trade

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'Jo Stevens'.

Rt Hon Jo Stevens MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

28 Awst 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n sgrifennu atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf 2024 at fy rhagflaenydd, Vaughan Gething AS.

Roedd eich llythyr yn nodi deg o argymhellion gan y Pwyllgor ETRA gan gynnwys y tri yr oedd angen i Lywodraeth Cymru ymateb iddyn nhw. Rwy'n ymdrin â'r rheini yn y llythyr hwn.

Argymhelliad 2: *Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion ar fyrder mewn meysydd datganoledig megis sgiliau a chaffael, sy'n ategu buddsoddiad Llywodraeth y DU yn Tata.*

Rydym yn meithrin perthynas waith gref â Llywodraeth y DU ac yn disgwyl ymlaen at gymryd rhan amlwg yn y trafodaethau ynghylch buddsoddi yn y sector dur yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth drwy ei rhaglenni cyflogadwyedd ac uwchsgilio, ReAct+ a Cymunedau am Waith+, fydd yn gallu cynnig hyfforddiant a gwasanaethau mentora i weithwyr Tata a'r gadwyn gyflenwi sydd am aros yn y farchnad lafur.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo rhyw £25 miliwn ar gyfer rhaglenni ReAct, Cymunedau am Waith a Chyfrifon Dysgu Personol. Rydym hefyd wedi estyn y Cyfrifon Dysgu Personol fel bod gweithwyr Tata a'r gadwyn gyflenwi yn cael eu defnyddio. Rydym wedi buddsoddi £22.5m yn ein rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, i helpu pobl gyflogedig i wella'u sgiliau a dysgu sgiliau newydd. Ers mis Mawrth mae ein colegau wedi ymateb yn gyflym a chefnogi gweithwyr Tata a'i gadwyn gyflenwi drwy gynllun gwerth £2m sydd wedi'u dargedu'n benodol ar gyfer Tata. Bydd y PLA sydd wedi'i dargedu er lles Tata yn para ym mlwyddyn academaidd 2024/25, i helpu gweithwyr Tata a'r gadwyn gyflenwi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 66
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Busnes Cymru yn helpu'r bobl hynny fydd yn colli eu swyddi fydd am ystyried hunangyflogaeth neu ddechrau eu busnes eu hunain. Bydd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar sut i ddechrau busnes, yn ogystal â sut i gael hyd i gyllid busnes. Rydym yn annog pob busnes ac unigolyn yr effeithir arno i gysylltu â llinell gymorth Busnes Cymru.

Mae Banc Datblygu Cymru yn rhoi cymorth gwerthfawr i fusnesau yng Nghymru ar adegau o ansicrwydd economaidd. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i fusnesau o fewn cadwyn gyflenwi Tata Steel UK y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Tata Steel ar eu cynigion buddsoddi yn y dyfodol a'u gofynion o ran sgiliau.

Argymhelliad 8: *Dylai Llywodraethau Cymru a'r DU ill dau ystyried gosod targedau caffael ar gyfer defnyddio dur a gynhyrchir yn ddomestig mewn contractau seilwaith sector cyhoeddus. At hynny, dylent archwilio sut mae gwledydd eraill yn Ewrop wedi defnyddio cymalau caffael cymdeithasol ac amgylcheddol i gefnogi eu diwydiannau dur domestig, gan gyflwyno'r rhain lle y bo'n briodol.*

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r arferion gorau o ran caffael dur ar gyfer contractau cyhoeddus lle medrwn. Mae Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN), 'Caffael dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru', wedi cael ei gryfhau er mwyn cyd-fynd â Siarter Dur y DU, drwy annog prosiectau yng Nghymru i ddefnyddio dur o ansawdd da o Brydain ac elwa arno lle bynnag y bo'n gyfreithiol gwneud hynny. Ategir y WPPN gan nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r WPPN yn esbonio sut y dylai cyrff Sector Cyhoeddus Cymru (SCC) sydd o fewn cwmbras y WPPN gynllunio cyn caffael. Anogir holl gyrff SCC i ystyried sut a phryd y bydd dur yn cael ei gaffael drwy'r gadwyn gyflenwi. Er mwyn i'r sector dur allu paratoi ar gyfer anghenion y dyfodol yn well a'u diwallu a sicrhau bod y galluoedd cywir yn eu lle, cyhoeddir rhybuddion am raglenni perthnasol neu brosiectau unigol ymlaen llaw. Hefyd, hyrwyddir deialog gynnar â'r sector dur i helpu i sicrhau canlyniadau gwell i brosiectau ac i nodi cyfleoedd i fod yn arloesol.

Bydd Deddf Caffael 2023 yn cefnogi defnyddio dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru trwy asesu tendrau mewn ffordd wahanol, h.y. bydd caffaelwyr yn cael dewis y Tendr Mwyaf Manteisiol yn hysbysu na'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd gan gael gwared ar yr amod 'economaidd'. Er bod y gost i bwrs y wlad yn ystyriaeth bwysig, gall codi llai na chyflenwyr dur domestig mewn ffordd annheg arwain at golli swyddi ac effeithiau economaidd a chymdeithasol sylweddol ar y cymunedau yr effeithir arnynt. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyfleoedd gael eu cyhoeddi drwy hysbysiadau piblinell. Bydd hyn yn helpu cyflenwyr i ddeall yn well y galw am ddur yn y dyfodol, gan ganiatáu i'r sector dur baratoi ar gyfer anghenion y dyfodol yn well a'u diwallu trwy sicrhau bod y galluoedd cywir yn eu lle.

Hefyd, gofynnir i gyrff SCC ystyried eu hopsiynau dylunio a'u goblygiadau o ran y dur fydd ei angen, gan nodi'r cynhyrchion dur penodol a'u symiau y bydd eu hangen a'r potensial i'w cael o fewn y DU. Cynhelir hefyd ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' gyda'r diwydiant i drafod eu gofynion am ddur.

Mae'r arweiniad yn y WPPN ynghylch Dewis Cyflenwyr yn esbonio y dylai cyrff SCC ofyn cwestiynau cyn-gymhwysio i fynd i'r afael â phroblem dympio dur a diffyg cydymffurfio â safonau derbyniol o ran iechyd, diogelwch a lles a safonau amgylcheddol. Mae natur cynhyrchu dur yn golygu bod cydymffurfio â chyfraith gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol

y tu allan i'r DU a'r UE yn broblem arwyddocaol; gall hyn fod yn wahaniaethydd defnyddiol wrth ddewis cyflenwyr.

I helpu i wneud y gadwyn gyflenwi yn dryloyw, dylai cyrff SCC ei gwneud yn ofyn bod BES 6001 neu ei gyfwerth yn un o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer ymgeiswyr a mynnu bod contractwyr Haen 1 yn darparu cynlluniau cadwyn gyflenwi yn eu ceisiadau am contractau fydd yn cynnwys sut bydd dur yn cael ei ddewis ac yn cofnodi tarddiad cydrannau dur.

Wrth ddyfarnu contractau, ni ddylai cyrff SCC seilio eu penderfyniadau ar y pris prynu isaf yn unig, ond dylent fod yn fodlon bod y prisiau neu gostau ym mhob cynnig yn seiliedig ar asesiad o gostau'r cylch bywyd a'u bod yn, bodloni'r ddeddfwriaeth ofynnol, yr ansawdd a'r safonau moesegol a bennwyd.

Er bod y gost i bwrs y wlad yn ystyriaeth bwysig, rydym yn sylweddoli y gallai prisiau anarferol o isel olygu nad yw'r contract yn debygol o gael ei wneud yn iawn; gallai codi pris is na darparwyr domestig yn annheg arwain at golli swyddi gydag effeithiau economaidd a chymdeithasol sylweddol ar y cymunedau yr effeithir arnynt. Mae darpariaethau Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (PCR) 68, Costio cylch bywyd a 69, Tendrau Anarferol o Isel wedi'u cynllunio i gynorthwyo cyrff SCC i asesu'r cynnig gorau.

Argymhelliad 10: *Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, fel ei gilydd, weithio ar gyflymder gyda'r Bwrdd Pontio i ddatblygu cynigion i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u diswyddo, a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau adferiad yn dilyn colli unrhyw swydd. Dylai'r rhain ddysgu o arfer da yn y DU a thu hwnt, a dylent gynnwys ffocws ar bontio'r bwlch rhwng unrhyw golledion swyddi a'r posibiladau tymor hwy a gyflwynir gan ddatgarboneiddio, ac ynni gwynt ar y môr, fel y bo'r angen.*

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos ac ar y cyd â'r Bwrdd Pontio. Mae uwch swyddog o Lywodraeth Cymru wedi cael ei secondio i Swyddfa Rheoli Rhaglenni'r Bwrdd Pontio i weithio gyda swyddogion o Lywodraeth y DU, NPTCC a TSUK.

Wrth wneud y gwaith hwn, rydym am ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau diwydiannol blaenorol megis cau Ford ac SSI Redcar yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur a sgiliau i helpu i nodi'r strwythur, y prosesau a'r dull sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y rhai yr effeithir arnynt orau.

Mae'r Bwrdd a'i ffrydiau gwaith bellach wedi cyrraedd y cam cyflawni. Gwnaeth y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cadeirydd y Bwrdd Pontio ddangos bod ysgogiad i gyflawni pan ar 15 Awst y cyhoeddodd y bydd £13.5m o gyllid y Bwrdd Pontio yn mynd i gynnal dau Gynllun Cyflenwi cyntaf y Bwrdd Pontio.

Sef Cronfa Hyblyg i'r Gadwyn Gyflenwi i ddarparu ymateb cyflym i gefnogi'r 150-200 o fusnesau y disgwylir i'r newidiadau yn Tata Steel UK effeithio arnyd nhw, a Rhaglen Paru Swyddi, Sgiliau ac All-leoli i ddarparu ailhyfforddiant hanfodol, paru swyddi, cymorth mewn gwaith a chymorth sgiliau ar gyfer hyd at 2,800 o weithwyr TSUK a'r miloedd yn y gadwyn gyflenwi yr effeithir arnynt, o ganlyniad i newidiadau TSUK.

Mae'r Bwrdd Pontio, drwy Gyngor Castell-nedd Port Talbot, wedi datblygu Cynllun Gweithredu Economaidd Lleol (LEAP) i gefnogi ei waith. Mae LEAP yn nodi cyfleoedd gwaith tymor byr, canolig a hirach i weithwyr yn TSUK ac o fewn ei gadwyn gyflenwi.

Bydd darparu'r bont rhwng colli swydd a chyfleoedd newydd yn allweddol ac mae'r Bwrdd Pontio yn ymwybodol iawn o hynny. Mae cyrsiau eisoes ar y gweill i achredu sgiliau gweithwyr TSUK a'r hyn y maen nhw eisoes wedi'i ddysgu.

Mae 58 o fusnesau a sefydliadau wedi llofnodi addewidion i warantu cyfweliadau am swyddi i'r rhai y mae newidiadau TSUK yn effeithio arnynt.

Daw cyfleoedd gwaith wrth ailadeiladu safle'r gwaith dur wrth iddynt symud o ffwrnais chwyth i dechnoleg ffwrnais arc trydan yn ogystal ag ar gyfer adeiladu'r EAF newydd.

Ar gyfer y tymor hwy mae gweledigaeth gyfannol gref ar gyfer rhanbarth De Cymru i bontio i ddiwydiant sero-net ar seilwaith newydd. Mae hon yn weledigaeth gyffrous gyda chefnogaeth eang gan randdeiliaid a byddai'n trawsnewid y rhanbarth yn y tymor hir. Bydd sefydlu porthladd rhydd Celtaidd a phrosiectau gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd yn cynnig cyfleoedd gwaith posibl yn y dyfodol sy'n gofyn am y sgiliau a feddir gan weithwyr TSUK a'r gadwyn gyflenwi. Mae angen gwneud hyn trwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sydd â llawer o'r arfau polisi hollbwysig yn eu dwylo.

Yn gywir,

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan

Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Thursday 18th July 2024

Dear Members of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee,

We are writing to request that the Economy, Trade and Rural Affairs Committee consider conducting an inquiry into the use of cages for pheasants and partridges by the shooting industry in Wales.

The breeding and rearing of game birds take place on an industrialised scale in Wales as it is home to the largest game farm in the UK. The practice of confining pheasants and partridges used for breeding purposes in cages raises significant animal welfare concerns, as it prevents them from expressing natural behaviours and does not fulfil their needs, leading to severe distress, physical injury, and a high incidence of disease.

The Animal Welfare Plan for Wales 2021 to 2026 sets out four animal welfare commitments as part of the programme for Welsh Government. The fourth commitment is entitled: Restrict the use of cages for Farmed Animals. The action to carry out a scoping exercise into the cages currently used was due for completion in 2023 as part of the fourth commitment but as of the year 2 progress report, there has been no mention of examining the use of cages for game birds.

Given Wales's commitment to high animal welfare standards, it is imperative that the welfare of game birds is investigated and addressed.

We would envisage the Committee to consider scrutinising the following issues in an inquiry:

- An independent impact assessment of animal welfare for game birds kept in cages for breeding.
- The inadequacy of current legal protections and regulatory frameworks for game birds, including the frequency, criteria and outcomes of inspection.
- Cost-benefit analyses of a transition away from using raised battery units for game birds.
- Analysis of the public cost of agricultural subsidies given to businesses that farm game birds, as well as compensation provided to farms that experience outbreaks of Highly Pathogenic Avian Influenza.
- Wider environmental impacts of the industrialised nature of game bird farming.

We believe that a Senedd inquiry into this matter is in line with public interest since YouGov polling showed in 2021 that 72% of people in Wales oppose the use of cages for breeding game birds.



This is in addition to the Senedd Petitions Committee considering the petition to “Ban game bird cages” in February 2022, which resulted in correspondence with the then Minister for Rural Affairs, Lesley Griffiths MS. There has been no further update on progress as per the year 2 Animal Welfare Plan progress report despite a firm commitment to restrict the use of cages for farmed animals.

We kindly request the Committee to include caged breeding of game birds in its Forward Work Programme.

We would also welcome the opportunity to provide additional information, evidence, and testimony to support this inquiry.

We look forward to hearing a positive response and the opportunity to collaborate on improving the welfare of farmed animals in Wales.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Fiona Pereira".

Fiona Pereira
Campaign Manager
Animal Aid



A handwritten signature in black ink, appearing to read "Shahinoor Alom".

Shahinoor Alom
Public Affairs (Wales) Officer
League Against Cruel Sports



Replies can be made via email to:

fiona@animalaid.org.uk

shahinooralom@league.org.uk

Fiona Pereira
Rheolwr Ymgyrchoedd
Cymorth i Anifeiliaid

Shahinoor Alom
Swyddog Materion Cyhoeddus (Cymru)
Y Gyng rhair yn Erbyn Chwaraeon Creulon

23 Gorffennaf 2024

Annwyl Fiona a Shahinoor,

Adar hela mewn cewyll

Diolch am eich llythyr ynghylch adar hela mewn cewyll. Byddaf yn ei anfon at yr Aelodau ac yn ei gynnwys fel papur i'w nodi ar gyfer ein cyfarfod nesaf, ar 18 Medi. Mae gan y Pwyllgor raglen waith lawn wedi'i threfnu hyd at ddiwedd y flwyddyn. Bydd yr Aelodau yn penderfynu ar raglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn tua dechrau tymor yr hydref – byddwn yn ystyried eich cynnig fel rhan o hyn.

Diolch eto am eich diddordeb yng ngwaith y Pwyllgor.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Catherine Smith
Cadeirydd
Hybu Cig Cymru

18 Gorffennaf 2024

Annwyl Catherine,

Diwylliant a gweithrediadau Hybu Cig Cymru

Nodaf adroddiadau yn y cyfryngau fod Hybu Cig Cymru (HCC) wedi gorffen ei broses ddisgyblu ynghylch y cyn-Brif Weithredwr. Byddwch yn ymwybodol o bryderon a fynegwyd yn y Senedd bod y diwydiant yn colli ffydd yn HCC. O ystyried pwysigrwydd y diwydiant cig coch i'n cymunedau gwledig a'n heconomi ehangach, mae'n hollbwysig bod HCC yn cynnal hyder y diwydiant ac yn gweithio'n agos gyda chynhyrchwyr.

Nawr bod y broses ddisgyblu wedi dod i ben, a fyddech cystal â rhoi gwybod imi pa gamau y mae HCC yn eu cymryd i gefnogi diwylliant iach o fewn y sefydliad ac i sicrhau bod ganddo hyder y diwydiant wrth symud ymlaen.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS a James Evans AS oherwydd eu diddordeb yn y mater.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.



Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,
Llywodraeth Cymru
Llyr Gruffydd AS
James Evans AS





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5875/24
Paul.Davies@senedd.wales

22 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y byddaf heddiw, ynghyd â'r Prif Weinidog, yn cyhoeddi [Bwyd o Bwys: Cymru](#). Bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mai 2023, ymrwymodd fy rhagflaenydd i gyhoeddi dogfen yn nodi polisïau bwyd ar draws Llywodraeth Cymru a sut maent yn cyd-fynd â'r amcanion cyffredinol. Mae cyhoeddi Bwyd o Bwys: Cymru yn cyflawni'r ymrwymadau i argymhellion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac i'r Senedd.

Mae Bwyd o Bwys: Cymru yn gosod polisïau yng nghyd-destun agenda strategol gyfunol Llywodraeth Cymru a sut maent yn ymwneud â'r amcanion llesiant yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26. Mae'r amcanion llesiant yn nodi sut y gallwn hyrwyddo nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Bwyd o Bwys: Cymru hefyd yn esbonio sut rydym yn datblygu ac yn cyflawni polisi drwy fabwysiadu'r pum ffordd o weithio.

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'r ffocws ar fwyd yn strategaeth saith mlynedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru Can. Mae'r amrywiaeth o bolisïau sy'n gysylltiedig â bwyd a sut y cânt eu datblygu a'u cyflawni, yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio a chydgyssylltu rhwng y Llywodraeth a llawer o'n rhanddeiliaid. Rwyf wedi bod yn glir fy mod yn awyddus i barhau i wrando a gweithio gydag ystod amrywiol o bartïon â diddordeb ar y ffordd orau ymlaen ar gyfer materion bwyd yng Nghymru. Mae hyrwyddo agenda strategol ar gyfer bwyd yn dibynnu ar ein ffocws a'n camau gweithredu ar y cyd tuag at ddatblygu polisi bwyd cynaliadwy i Gymru.

Rwy'n bwriadu cadw'r ddogfen yn gyfredol, gan ei diweddarau yn ôl yr angen.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig /
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/HIDCC/5192/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

31 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n falch o gyhoeddi mai Dr Susannah Bolton sydd wedi'i phenodi yn gadeirydd allanol annibynnol i oruchwylio'r adolygiad statudol o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Fe fyddwch yn ymwybodol bod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi'u cyflwyno ym mis Ebrill 2021 gan nodi dull Cymru gyfan o leihau effeithiau niweidiol llygredd o weithgareddau amaethyddol. Mae'r broses wedi'i chyflwyno'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd a bydd y set derfynol o fesurau yn dod i rym erbyn diwedd y flwyddyn. Cyflwynwyd Dull Rheoli Maethynnau Uwch 12 mis ar gyfer blwyddyn galendr 2024.

O leiaf bob pedair blynedd, rhaid adolygu effeithiolrwydd y mesurau sydd wedi'u gosod gan y Rheoliadau o ran lleihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol ac, os gwelir bod angen, eu diwygio. Mae gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad wedi'i wneud a bydd yr adolygiad, a gaiff ei oruchwylio gan Dr Bolton, yn rhoi cyfle gwych i bwyso a mesur a gwrando ymhellach ar yr ystod eang o safbwyntiau ar effeithiolrwydd y rheoliadau. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ar y cynigion ynghylch mesurau amgen, yn unol ag ysbryd gwir bartneriaeth.

Mae Dr Bolton yn Ddirprwy Brifathro Menter a Chyfnawid Gwybodaeth Coleg Gwledig yr Alban, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau a arweinir gan genhadaeth i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cynhyrchu bwyd a'r economi naturiol. Tan fis Rhagfyr 2021, roedd yn Gyfarwyddwr Ymchwil ar gyfer y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), yn gyfrifol am raglen ymchwil gymhwysol ar ran ffermwyr a phroseswyr ar draws sectorau â'r garddwriaeth, anifeiliaid sy'n cnoi cil a phorc y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNGohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 76
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn hynny, roedd Dr Bolton yn Gyfarwyddwr Cyfnewid Gwybodaeth a goruchwyliodd y gwaith o ddatblygu Platfform Rhagoriaeth Fferm AHDB, sef rhwydwaith o ffermwyr o dros 70 o fusnesau fferm, sy'n darparu cyfleoedd cyfnewid gwybodaeth, dysgu rhwng cymheiriaid a meincnodi. Mae ganddi brofiad blaenorol mewn cyd-destun Cymreig pan fu yn rhan o waith trawsffiniol mewn perthynas â dalgylch Gwy gan gefnogi dulliau gwneud penderfyniadau i ffermwyr eu defnyddio i helpu i fynd i'r afael â cholli maetholion. Mae ganddi PhD mewn Amaeth-goedwigaeth Trofannol a threuliodd 3 blynedd yn gweithio gyda'r darparwr ymchwil EMBRAPA yng Ngogledd-ddwyrain Brasil. Wedi hynny bu'n gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol a chyfathrebu allanol yn Rothamsted Research.

Rwy'n credu bod yr adolygiad hwn yn hynod bwysig ac rwyf yn ddiolchgar iawn i Dr Bolton am dderbyn y swydd o gadeirydd annibynnol. Mae disgwyl adroddiad terfynol ac argymhellion o'r adolygiad i Weinidogion Cymru erbyn diwedd Mawrth 2025, fydd rwy'n siŵr o ddiddordeb i aelodau'r pwyllgor.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Y Gwir Anrhydeddus Bridget Phillipson AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg
Llywodraeth y DU

1 Awst 2024

Annwyl Bridget,

Diwygio'r Ardoll Brentisiaethau

Rwyf yn Gadeirydd ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Roedd gen i ddiddordeb clywed yn Araith y Brenin fod Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r Ardoll Brentisiaethau. Rwyf hefyd yn nodi o'ch datganiad ar y cyd â Phrif Weinidog y DU y bydd gan Skills England rôl fawr i'w chwarae yn yr ardoll sgiliau a thwf newydd.

Mae'r Ardoll Brentisiaethau yn fater sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Ar 18 Ionawr, dywedodd Vaughan Gething AS, sef y Gweinidog oedd â chyfrifoldeb am brentisiaethau ar y pryd, wrth ein Pwyllgor nad ydy'r Ardoll yn cyflawni dros Gymru. Galwodd hefyd am Ardoll ddiwygiedig a fyddai'n fwy tryloyw.

Mae gennyf ddiddordeb yn eich cynlluniau ar gyfer diwygio a'r effaith y gallent ei chael ar fusnesau a phrentisiaid yng Nghymru. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi:

- Unrhyw fanylion y gallwch eu rhannu am y cynlluniau diwygio ar hyn o bryd, yn enwedig unrhyw beth ynghylch eich barn am sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar Gymru; a
- Pa rôl ydych chi'n rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae yn y broses ddiwygio hon.



Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych a dilyn cynnydd y broses o ddiwygio'r ardoll brentisiaethau.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Jack Sargeant AS, y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol, er gwybodaeth iddynt.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



2024-0024626

**The Rt Hon Baroness Jacqui Smith
Minister for Skills**

Sanctuary Buildings 20 Great Smith Street Westminster London SW1P 3BT
tel: 0370 000 2288 www.education.gov.uk/contactus/dfe

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru
By email: seneddeconomy@senedd.wales

22 August 2024

Dear Mr Davies,

Thank you for your correspondence of 1 August, addressed to the Secretary of State, regarding the Apprenticeship Levy. I am replying as the minister responsible for this policy area.

Thank you for enquiring about our plans to reform the Apprenticeships Levy into a more flexible Growth and Skills Levy and the implications that this will have for Wales. You will appreciate that, as education, training and skills is a devolved matter, skills policy in Wales is the responsibility of the Welsh Government.

When designing how the Growth and Skills Levy will operate in England, we will engage the devolved nations on the impact of the changes. I can assure you that we will share further detail with the Welsh Government as soon as we are able to do so.

Thank you for writing to me. I look forward to working closely with the Welsh Government going forward.

Yours sincerely,

**The Rt Hon Baroness Jacqui Smith
Minister for Skills**

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

9 Awst 2024

Annwyl Huw,

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – adborth gan randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru

Yn ystod ymweliad y Pwyllgor â Sioe Frenhinol Cymru, mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynghylch gwaith Gweithgorau Rhanddeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er enghraifft, clywsom bryderon ynghylch y gweithgor newydd-ddyfodiaid. Nodwyd bod cofnodion yn cael eu dosbarthu yn dilyn cyfarfodydd i ddechrau ond bod hyn wedi dod i ben yn raddol ac na chytunwyd ar unrhyw argymhellion neu adroddiad terfynol ac na chafodd unrhyw beth ei gyhoeddi. Yr adborth oedd bod aelodau o'r grŵp yn amlwg yn siomedig.

Gan adeiladu ar argymhellion un a dau yn **adroddiad Gorffennaf** y Pwyllgor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n gofyn am sicrwydd, hoffwn eich annog hefyd i gyhoeddi nodyn o bob un o gyfarfodydd y Gweithgorau Rhanddeiliaid ac adroddiad cyffredinol yn ymdrin â chanfyddiadau pob grŵp. Rwy'n siŵr y byddai rhanddeiliaid yn croesawu'r gwaith hwn ac y byddai'n sicr yn helpu i sicrhau tryloywder ac yn helpu'r rhai sy'n dilyn datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ddeall y broses.

Clywsom bryderon hefyd ynghylch gweithrediad y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon. Awgrymodd rhanddeiliaid fod rhai materion yn ymwneud â chytuno ar ba arbenigwyr y gellid eu gwahodd a chlywsom hefyd fod yr amserlen ar gyfer casglu tystiolaeth yn achosi problemau i rai rhanddeiliaid. A fydddech cystal â rhannu eich barn am hynt gwaith y grŵp hwn, ac unrhyw gamau y gallwch eu cymryd i ddatrys y problemau y deallwn ei fod yn eu hwynebu?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych am y materion pwysig hyn.



Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Rt Hon Jonathan Reynolds MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach
Adran Busnes a Masnach
Llywodraeth y DU

Rt Hon Ed Miliband MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net
Adran Diogelwch Ynni a Sero Net
Llywodraeth y DU

12 Awst 2024

Annwyl Jonathan and Ed,

Yr Economi Werdd

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi bod yn cynnal ymchwiliad i'r economi werdd. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan yr economi werdd, unrhyw rwystrau y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd, a sut i sicrhau bod gennym y sgiliau yng Nghymru i gefnogi'r newid i economi werdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried y modd y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i wireddu potensial yr economi werdd, a pha gymorth y bydd ei angen ar weithwyr a chyflogwyr fel rhan o gyfnod o drawsnewid cyfiawn.

Sylwaf fod Llywodraeth newydd y DU wedi gwneud llawer o ymrwymadau sy'n ymwneud â mentrau economi werdd megis y Gronfa Cyfoeth Genedlaethol, sefydlu Ynni Prydain Fawr (neu Great British Energy) a'r gefnogaeth ehangach i ynni gwynt gan gynnwys gwynt arnofiol ar y môr. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, byddai gennyf ddiddordeb mawr yn eich barn gynnar ar effaith yr ymrwymadau hyn ar Gymru, a'r modd yr ydych yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi werdd yma yng Nghymru, a chyfnod o drawsnewid cyfiawn.

Dylwn nodi bod y Pwyllgor yn cynnal gwaith penodol ar ddyfodol Dur Cymru sy'n cynnwys edrych ar y bwriad i gau'r ffwrnais chwyth sy'n weddill ym Mhort Talbot, cyfnod pontio Tata i gynhyrchu dur gyda ffwrnais arc trydan, a chymorth y gallai fod ei angen ar y gweithwyr yr effeithir arnynt, eu



teuluoedd a'u cymunedau yn ystod y cyfnod pontio hwn. Rydym yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddod o hyd i ddyddiad priodol iddi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'r gwaith hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich barn ataf ar y mater hwn erbyn 11 Medi gan y bydd hyn yn rhoi amser inni ystyried eich ymateb, a'i ymgorffori yn yr adroddiad yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi yn yr hydref. Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, er gwybodaeth iddi.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Jo Stevens MP, Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Dan Labbad
Prif Weithredwr
Ystad y Goron

12 Awst 2024

Annwyl Dan

Yr Economi Werdd

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi bod yn cynnal ymchwiliad i'r economi werdd. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan yr economi werdd, unrhyw rwystrau y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd, a sut i sicrhau bod gennym y sgiliau yng Nghymru i gefnogi'r newid i economi werdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried y modd y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i wireddu potensial yr economi werdd, a pha gymorth y bydd ei angen ar weithwyr a chyflogwyr fel rhan o gyfnod o drawsnewid cyfiawn.

Fel rhan o hyn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed y diweddaraf am y cynnydd ynghylch rownd prydles 5 o ran ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, a Chyflymydd y Gadwyn Gyflenwi. At hynny, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn deall pa drafodaethau y mae Ystâd y Goron wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ymrwymiad i ddatgloi 12GW pellach o gapasiti gwynt arnofiol ar y môr, yn y Môr Celtaidd. Byddem yn awyddus, hefyd, i glywed unrhyw ystyriaethau eraill yr ydych yn eu gwneud a allai gefnogi'r economi werdd yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich barn ataf ar y mater hwn erbyn 11 Medi gan y bydd hyn yn rhoi amser inni ystyried eich ymateb, a'i ymgorffori yn yr adroddiad yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi yn yr hydref. Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.



Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion
Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: **Pwyllgor EMMG – Cyswllt Ffermio**

Paul Davies MS
Cadeirydd
Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig

20 Awst 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich e-bost dyddiedig 27 Mehefin, ac am ddarparu copi o adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Gyswllt Ffermio i mi.

Rwy'n ddiolchgar am waith y Pwyllgor ar hyn ac yn atodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r un argymhelliad a'r 6 chasgliad.

Yr eiddoch yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 87



Ymateb Llywodraeth Cymru i

Adroddiad ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i Cyswllt Ffermio

Fel Ysgrifennydd y Cabinet sy'n atebol am ddarparu ar gyfer Cyswllt Ffermio ac am ei berfformiad, rwy'n croesawu ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth hon.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad hwn fel y'i disgrifir yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2024.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i 6 chasgliad ac 1 argymhelliad yr adroddiad.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Cynnwys

1.	Cyfathrebu cenhadaeth a rôl yn y dyfodol.....	3
	Argymhelliaid 1.....	3
	Casgliad 1.....	4
2.	Gofynion sgiliau ac arbenigedd	6
	Casgliad 2.....	6
	Casgliad 3.....	7
3.	Cymhwysra a Mynediad.....	9
	Casgliad 4.....	9
4.	Strwythur y Contract a'r Rhaglen.....	11
	Casgliad 5.....	11
5.	Cefnogi iechyd meddwl.....	13
	Casgliad 6.....	13

1. Cyfathrebu cenhadaeth a rôl yn y dyfodol

Yn y bennod hon, canolbwyntiodd Pwyllgor ETRA ar sut roedd Cyswllt Ffermio yn cefnogi'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS); cyllido; newydd-ddyfodiaid; a defnyddio ffermydd arddangos.

Gwnaeth y Pwyllgor un casgliad ac un argymhelliad yn y bennod hon.

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn hyrwyddo'n well rôl Cyswllt Ffermio o safbwynt cefnogi ffermwyr i ddeall sut y gallant gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yr SFS. Dylai hyn gynnwys ystyried awgrym rhanddeiliaid i ddefnyddio ffermydd arddangos neu 'beilot' fel rhan o waith Cyswllt Ffermio.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn mewn Egwyddor**

1. Cafodd contract presennol Cyswllt Ffermio ei dendro yn hydref 2022. Roedd y fanyleb yn ymdrin â nifer o bolisiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y'u nodwyd yn Neddf Amaethyddiaeth 2023 ac amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) fel yr oeddent yn hysbys ar y pryd (h.y. cyn yr ymgynghoriad). Fel rhan o'r ymarfer caffael, gofynnwyd i gyflenwyr esbonio sut y byddent yn cynnal Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth (Cyswllt Ffermio neu'r "Rhaglen") i roi'r holl bolisiau ac amcanion ar waith.
2. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio ar sail yr uchod. Asesir pob ymgyrch gyflawni yn ôl ei gallu i hyrwyddo amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a/neu SFS, ac i helpu ffermwyr i ddeall yr amcanion yn well.
3. Yn ogystal â nodi polisïau allweddol Llywodraeth Cymru ac amcanion SLM a SFS, roedd y fanyleb hefyd yn cynnwys sawl gofyniad, h.y. yr hyn y bydd gofyn i Gyflenwyr llwyddiannus eu bodloni yn ystod cyfnod y contract. Un o'r gofynion hyn oedd sefydlu rhwydwaith o Ffermydd arddangos.
4. Cyfeirir atyn nhw yn y Rhaglen fel "Ein Ffermydd". Mae'r rhwydwaith hwn wedi hen ennill ei blwyf ac yn adeiladu ar lwyddiant contractau blaenorol.
5. Mae rhwydwaith Ein Ffermydd, gyda chymorth arbenigwyr yn sectorau'r diwydiant, wedi bod yn treialu a defnyddio ffyrdd mwy effeithlon, cynaliadwy a phroffidiol o reoli busnesau ffermio.
6. Mae 220 o ffermydd ledled Cymru yn cymryd rhan, fel rhan o'r rhwydwaith, mewn gwahanol fathau o dreialon a phrosiectau gan ganolbwyntio ar

arloesi ac ar dechnolegau newydd i'w helpu nhw a ffermydd eraill Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2050, ac i'w gwneud yn fwy gwydn a chynaliadwy rhag hinsawdd sy'n newid.

- 7.** Mae'r Rhaglen wedi cynnal 94 o brosiectau rheoli tir yn gynaliadwy ar y 220 o ffermydd. Mae'r canlyniadau a'r arfer gorau yn cael eu rhannu, eu trafod a'u dangos yn ystod diwrnodau agored ac mewn astudiaethau achos a chyhoeddiadau i helpu ffermwyr i fabwysiadu a defnyddio arferion gorau a dulliau arloesol newydd.
- 8.** Y ffaith bod rhwydwaith arddangos eisoes yn bod o fewn y Rhaglen yw'r rheswm pam fy mod wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor mewn egwyddor.

Casgliad 1

Mae'r awgrym bod Cyswllt Ffermio wedi ymddieithrio o nodau polisi Llywodraeth Cymru a bod cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad yn wan yn peri pryder, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio pwysig hwn. Rhaid sicrhau eglurder llwyr ynghylch yr hyn y bwriedir i'r contract Cyswllt Ffermio newydd ei gyflawni a pham, ac mae'n amlwg bod angen hyrwyddo'r rhaglen yn well.

- 9.** Mae gan Cyswllt Ffermio strwythur llywodraethu cadarn. Mae'r strwythur yn cynnwys Bwrdd y Rhaglen ("y Bwrdd") sydd â chadeirydd sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ac aelodau o sefydliadau ffermio ac amgylcheddol allweddol. Cynrychiolir y ddau undeb ffermio ynghyd â ffermwyr o Grŵp Llywio Ffermwyr Cyswllt Ffermio a'r sector Garddwriaeth, Colegau Amaethyddol, HCC, AHDB, CFfl Cymru, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaeth. Mae dau Ddirprwy Gyfarwyddwr o Is-adrannau Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru hefyd yn aelodau.
- 10.** Y Bwrdd sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad cyffredinol i'r Rhaglen gan ddod ag arbenigedd o nifer o sectorau ynghyd i nodi a hyrwyddo'n rhagweithiol ymchwil a gwybodaeth i ddiwallu anghenion y diwydiant.
- 11.** Un grŵp sy'n atebol i Fwrdd y Rhaglen yw'r Grŵp Cyflawni Polisi (PDG). Mae'r PDG yn grŵp mewnol gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r portffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig h.y. y rhai sydd wedi cyfrannu amcanion Polisi allweddol at eu cynnwys ym manyleb y contract. Mae PDG, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd yn dylanwadu ar y cyflawni.

- 12.** Mae'r Strwythur Llywodraethu yn sicrhau bod gan y diwydiant a Llywodraeth Cymru lais cyfartal wrth ddewis blaenoriaethau o dan bob un o themâu'r Rhaglen; Busnes, Tir a Da Byw, ac o ran cytuno ar ffocws prosiectau'r Rhaglen.

2. Gofynion sgiliau ac arbenigedd

Yn y bennod hon, canolbwyntiodd Pwyllgor ETRA ar sut mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio ymchwil sy'n berthnasol i'r diwydiant, beth yw ffocws ei ymyrraeth a sut mae'n integreiddio Coedwigaeth a rheoli coetiroedd.

Daeth y Pwyllgor i ddau gasgliad yn y bennod hon.

Casgliad 2

Er bod cynigion yr SFS yn dal i gael eu datblygu, mae tystiolaeth gan randdeiliaid yn dangos rhai bylchau sylweddol yn y rhaglen bresennol i helpu i bontio i'r SFS, a chefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion SLM. Yn sicr, mae lle am lawer mwy o gyfraniad gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac arbenigedd arbenigol, gan gynnwys ecolegwyr, arbenigwyr bioamrywiaeth a garddwriaeth a choedwigwyr, a rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r arbenigedd hwn yn ystod y pontio i'r SFS ac ar ôl hynny. Rhaid archwilio'n llawn rôl y ffermwyr eu hunain fel mentoriaid ac arbenigwyr. Mae angen ystyried sut mae gwybodaeth arbenigol yn cael ei rhannu gyda'r rhai sy'n rheoli'r tir, gan gynnwys y cwrmpas ar gyfer datblygu hyb gwybodaeth o adnoddau a all gyfeirio'n glir at y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

- 13.** Fel sydd eisoes wedi'i ddweud yn yr ymateb hwn, roedd manyleb y contract yn cynnwys nifer o bolisiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac amcanion SFS fel yr oeddent yn hysbys ar y pryd (h.y. cyn yr ymgynghoriad).
- 14.** Mae'r Rhaglen wedi'i chynllunio yn unol â'r uchod heb fawr o fylchau. Asesir pob ymgyrch gyflawni yn ôl ei gallu i hyrwyddo amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a/neu SFS, ac i helpu ffermwyr i ddeall yr amcanion yn well.
- 15.** Er mwyn gwireddu amcanion SLM/SFS, mae'r Rhaglen bresennol wedi cyflwyno hefyd categorïau newydd o gyngor technegol o fewn Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio, gan gynnwys categorïau amgylcheddol penodol fel amaeth-amgylcheddol, gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth; Cyngor carbon; yn ogystal â chyngor ar bren, ar arddwriaeth ac ar gynhyrchu organig. Mae gan y Rhaglen **486 o gynghorwyr ar draws pob categori**.
- 16.** Hyd yma mae Cyswllt Ffermio wedi rhoi dros **10,880 o ddarnau o gyngor**, **6,815 ohonyn nhw o'r categorïau amgylcheddol penodol**.

17. Mae Rhaglen Fentora Cyswllt Ffermio yn cysylltu ffermwyr ag arweinwyr/arloeswyr yn y diwydiant i'w mentora ac i roi arweiniad a chynngor wedi'u teilwra. Hyrwyddwyd ar-lein, wrth cyfathrebu yn uniongyrchol gyda busnesau cofrestredig, mewn digwyddiadau penodol a chan Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio, mae'r Mentoriaid yn gallu rhoi o'u harbenigedd a'u gwybodaeth ymarferol, gan roi cymorth ac arweiniad yn eu pwnc perthnasol.
18. Mae mentoriaid newydd wedi ymuno â'r Rhaglen, yn arbenigo mewn amaeth-goedwigaeth, pori cadwraeth, rheoli tir glas, ffermio adfywiol, ansawdd dŵr a rheoli coetiroedd.
19. Gyda chyfeiriadur o **dros 90 o Fentoriaid**, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n ffermwyr llawn amser, sy'n 'gallu dweud a gwneud', datblygir perthynas sy'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch.
20. Hyd yn hyn mae **406 o ffermwyr** wedi cael help y rhaglen Fentora, cyfanswm o **2,499 o oriau**.
21. Mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys Hyb Cyfnewid Gwybodaeth, sy'n creu man lle gall academyddion, ymgynghorwyr proffesiynol a ffermwyr ledled Cymru siarad â'i gilydd. Mae'r Hyb yn troi ffrwyth yr ymchwil ddiweddaraf o'r DU a gweddill y byd, papurau gwyddonol a sgiliau ymarferol, yn wybodaeth y gall ffermwyr ei defnyddio.

Casgliad 3

Mae tystiolaeth o gynhwysiant cyfyngedig y sector coedwigaeth yn peri pryder, yn enwedig yng ngoleuni'r amcanion SLM yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'r gofynion ar ffermwyr actif a nodir yng nghynigion yr SFS. Rhaid i Cyswllt Ffermio gynnwys llawer mwy o arbenigedd ym maes coedwigaeth a rheoli coetiroedd. Rhaid iddo gynnwys y sector hwnnw fel trydydd parti wrth ddatblygu gwasanaethau hyfforddi a chymorth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sy'n rheoli tir amaethyddol Cymru.

22. Sefydlwyd y Rhaglen bresennol i gefnogi ffermwyr yn unig; ni fwriadwyd erioed iddi gefnogi'r diwydiant coedwigaeth. Penderfynwyd peidio â dyblygu gwaith Focus on Forestry First (FFF). Sefydlwyd FFF gydag arian ar y cyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru i feithrin sgiliau a gwella cymwysterau'r sector coed a phren, gan weithio gyda busnesau i nodi pa hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw nawr ac yn y

dyfodol i'w helpu i wireddu Polisiâu'r Llywodraeth; daeth y cynllun i ben ym mis Mehefin 2023.

- 23.** Er nad yw'r Rhaglen yn cefnogi busnesau coedwigaeth am y rhesymau a nodir uchod, mae prosiectau Cyswllt Ffermio yn helpu ffermwyr ym mhob agwedd ar reoli coetir, i wneud elw, sefydlu coetir, rheoli coetir a datblygu busnes coetir.
- 24.** Er enghraifft, mae asesiad wedi'i gynnal o goetir yr holl ffermydd arddangos er mwyn darparu data gwaelodlin o gyflwr eu perthi (gwrychoedd) a'u coetir, gan nodi cyfleoedd i wella perfformiad amgylcheddol busnes y fferm trwy greu coetiroedd.
- 25.** Mae dosbarthiadau meistr Cyswllt Ffermio yn dangos y cyfleoedd a'r manteision y mae coed ar fferm yn eu cynnig trwy ymgorffori coed yn nhirwedd y fferm fel dull aml-haen o ddatgarboneiddio; dal a storio carbon; gwella iechyd pridd ac ansawdd dŵr ac aer; a chysgodi da byw. Mae amaeth-goedwigaeth yn cael ei hyrwyddo fel un o'r manteision y mae coed yn ei gynnig wrth gyflawni'r amcanion hyn mewn ffordd sy'n gweithio er lles busnes y fferm.
- 26.** Mae Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio yn cynnwys sawl categori "coetir" technegol gan gynnwys rheoli coetir; arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth; a phrosesu pren ac ychwanegu gwerth.
- 27.** Mae gan y Rhaglen **12 o arbenigwyr coetir**.
- 28.** Cafodd System Prynu Dynamig (DPS) Materion Gwledig ei lansio ar 5 Gorffennaf fel fframwaith caffael aml-gategori y gall cyflenwyr wneud cais trwyddo. Y bwriad yw ymgorffori cymaint o "gyflenwyr" â phosibl o fewn y DPS, gan gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol, ecolegwyr ac arbenigwyr mewn bioamrywiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth, i sicrhau bod yr arbenigeddau priodol ar gael i Lywodraeth Cymru allu cynnal prosiectau cymorth yn y dyfodol. Ar ôl ymuno, byddan nhw'n cael ceisio am unrhyw dendrau y gall Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi, gan ddefnyddio'r DPS. Ein bwriad yw y bydd holl weithgarwch caffael y Gyfarwyddiaeth Materion Gwledig yn digwydd trwy'r DPS.
- 29.** Bydd y DPS yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddatblygu'r SFS, gan gwtogi'r amser caffael a chaniatáu gweithio cydgysylltiedig.

3. Cymhwystra a Mynediad

Canolbwyntiodd Pwyllgor ETRA yn y bennod hon ar y meini prawf ar gyfer bod yn gymwys am y contract presennol; anawsterau cael hyd i gymorth ar-lein a defnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Daeth y Pwyllgor i un casgliad yn y bennod.

Casgliad 4

Mae cymorth i fyfyrwyr a gweithwyr amaethyddol sy'n newydd i'r diwydiant yn hanfodol, a rhaid sicrhau bod rhoi blaenoriaeth i hyn yn rhan o'r contract newydd. Mae angen adolygu mynediad a chymhwystra ar gyfer Cyswllt Ffermio ar unwaith gyda'r bwriad o sicrhau gwell mynediad i newydd-ddyfodiaid a grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu ar hyn o bryd, gan gynnwys myfyrwyr. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried anghenion tyddynwyr a garddwriaethwyr wrth gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Rhaid sicrhau bod darpariaeth ddigonol o wasanaethau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, a rhaid rhoi blaenoriaeth i broblemau parhaol fel allgáu digidol. Rhaid i ymgysylltu â cholegau a sefydliadau amaethyddol eraill gael sylw manwl yn y rhaglen Cyswllt Ffermio nesaf, yn ogystal â meithrin cysylltiadau ag ysgolion i hyrwyddo'r diwydiant a'r cyfleoedd sydd ar gael.

30. Er nad yw'r Rhaglen yn darparu cymorth yn benodol i fyfyrwyr, mae partneriaid Busnes, aelodau agos o'r teulu (priod/partneriaid/meibion/merched) a gweithwyr ar PAYE yn gymwys am gymorth, a gallai unrhyw un o'r rhain fod yn fyfyrwr.
31. Mae'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes o dan Cyswllt Ffermio yn cael ei his-gontractio i sawl coleg amaethyddol ledled Cymru gyda rhai yn darparu tri chwrs wedi'u hariannu'n llawn i fyfyrwyr fel rhan o'u cwrs Coleg Addysg Bellach.
32. Mae Cyswllt Ffermio yn darparu cyrsiau e-ddysgu perthnasol hefyd i fyfyrwyr a phlant ysgol trwy "Hwb" yn rhad ac am ddim.
33. Mae "Dechrau Ffermio" yn becyn cymorth wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer ffermwyr newydd sydd am ddechrau eu busnes eu hunain neu sy'n chwilio am gyfle i fentro ar y cyd. Mae'r pecyn yn cynnwys arweiniad a chynghor ym maes mentora, busnes, cyfraith ac arian i helpu i gyflawni nodau penodedig.
34. Mae Cyswllt Ffermio yn darparu "gwasanaeth paru" neu blatfform cyfleoedd ar y cyd (JOP), sy'n paru perchenogion tir sydd am gamu'n ôl neu adael y diwydiant ag unigolion sydd am gael cyfle mewn busnes ffermio.

- 35.** Mae Dechrau Ffermio yn cynnig llwybr i helpu'r ddau barti trwy'r broses, gan gynnwys darganfod mwy am y fenter, cefnogi datblygiad personol, chwilio am bartner busnes posibl a helpu i sefydlu menter ar y cyd.
- 36.** Mae Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor hefyd ar gynllunio olyniaeth; gyda help i gychwyn ar yr hyn all fod yn sgwrs anodd. Mae'r cymorth yn cynnwys cyngor busnes, cyfreithiol ac ariannol proffesiynol yn ogystal â help arbenigwyr.
- 37.** Y nod yw annog symudiad o fewn y diwydiant gan ddiogelu ar yr un pryd ddyfodol busnesau fferm.
- 38.** Ym mlwyddyn gyntaf y Rhaglen, cymerodd 398 o unigolion ran yn Dechrau Ffermio (324 o geiswyr a 74 o ddarparwyr).
- 39.** Rhaid i'r ddau gontractwr gydnabod a chefnogi nodau Cymraeg 2050. Mae Mentera (Menter a Busnes gynt) yn gwneud llawer o waith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 97% o'u gweithlu yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, sy'n sicrhau bod pob agwedd o'r ddarpariaeth yn gallu cael ei chynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddibynnu ar ddewis y cwsmer.
- 40.** Mae'r Rhaglen yn sicrhau hefyd bod y cynnwys ysgrifenedig a digidol yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn bodloni Safonau'r Gymraeg.
- 41.** Mae cymorth pwrpasol ar gael yn rhanbarthol, gyda Swyddogion Datblygu ar gael i dywys cwsmeriaid drwy'r Rhaglen, er mwyn iddyn nhw allu cael y cymorth mwyaf perthnasol ar gyfer eu busnes. Mae hyn yn cynnwys cymorth i weld elfennau ar-lein y rhaglen; mae Cynghorwyr a Darparwyr Hyfforddiant hefyd yn darparu'r cymorth hwn i gwsmeriaid.
- 42.** Trwy'r rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes bydd cwsmeriaid yn cael ymuno hefyd â nifer o gyrsiau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu amrywiol eu lefelau megis Gwneud Treth yn Ddigidol, Marchnata ar E-bost, Cyfryngau Cymdeithasol a Defnyddio Offer Digidol.
- 43.** Mae'r Rhaglen yn gweithio hefyd gyda chwsmeriaid sydd angen cymorth digidol gan gynnwys sgiliau digidol sylfaenol, cael at ddyfais a chysylltedd i nodi manau cymorth.

4. Strwythur y Contract a'r Rhaglen

Yn y bennod hon, canolbwyntiodd Pwyllgor ETRA ar hyd y contract a gwerthuso'r Rhaglen.

Daeth y Pwyllgor i un casgliad yn y bennod.

Casgliad 5

Ers ymadael â'r UE, nid yw rhai o'r mecanweithiau blaenorol ar gyfer craffu ar daliadau cymorth amaethyddol a gwasanaethau ar waith mwyach. Mae hynny'n golygu ei bod hi'n bwysicach nag erioed bod â mecanweithiau cadarn ar gyfer craffu ar yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar gefnogi'r diwydiant amaethyddol, gan gynnwys gwerth am arian ac effeithiolrwydd gwasanaethau Cyswllt Ffermio. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu gwarantu'r atebolrwydd hwn, ac yna bydd angen i'r Pwyllgor ystyried ei rôl graffu ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb hefyd i fater sut mae'r gymuned ffermio, cyrff anllwyodraethol amgylcheddol a phawb sy'n actif yn yr economi wledig yn cael fforwm i fynegi eu barn am wasanaethau cynghori ffermwyr ac i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisiau yn y dyfodol.

- 44.** Mae gan Fwrdd Rhaglen Cyswllt Ffermio sawl cyfrifoldeb. Yn ogystal â rhoi cyngor ar addasrwydd y cynlluniau a'r ymgyrchoedd cyflenwi arfaethedig a sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y diwydiant a'i bod yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar ffermwyr i bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFA) a'i gynnal, mae'r Bwrdd yn nodi ac yn monitro canlyniadau ac effeithiau allweddol mesuradwy'r Rhaglen.
- 45.** Mae pob Rhaglen wedi cael ei gwerthuso yn annibynnol hefyd. Gan i'r Rhaglen flaenorol bara am ragor na 7 mlynedd, cafodd gwerthusiad canol tymor ei gynnal yn 2021 a gwerthusiad terfynol ei gynnal yn gynharach eleni. Bydd yr adroddiad, a luniwyd gan Miller Research, ar gael cyn hir.
- 46.** Defnyddir pob gwerthusiad i lywio'r Rhaglen nesaf, gan adeiladu ar brosiectau llwyddiannus blaenorol a diystyru'r rhai na wnaethon nhw weithio. Er enghraifft, yn 2019, cafodd Cyswllt Ffermio ei adnewyddu gyda'r nod o wneud y Rhaglen yn fwy hygyrch, a rhoi mwy o ffocws ar ganlyniadau a gwella taith y cwsmer. Golygai nifer o newidiadau allweddol o ran ei roi ar waith, gan gymryd yr adborth i gam un y gwerthusiad interim o'r Rhaglen KT&I, yn ogystal ag ymateb y diwydiant ehangach a thrafodaethau mewnol rhwng Llywodraeth Cymru, a Chyflenwyr.
- 47.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynyddu'r cyfleoedd i gynnal twf gwledig. Rydym yn trafod ag amrywiaeth o

randdeiliaid ynghylch datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a bydd hynny'n dylanwadu ar ddatblygiad y Cyswllt Ffermio nesaf.

- 48.** Roedd cysylltiad uniongyrchol rhwng y Bwrdd Datblygu Gwledig a Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE, sydd bellach wedi dod i ben. O gofio mai ni bellach sy'n cynnal cynlluniau buddsoddi gwledig, a'n bod yn cyflwyno Cam Paratoi'r SFS y flwyddyn nesaf, mae natur y gefnogaeth i'r sector wedi newid ers y Rhaglen Datblygu Gwledig.
- 49.** Mae fy ymrwymiad i ymgysylltu yn cydnabod y bydd yn rhaid wrth lywodraethu priodol ar y modd y cynhelir yr SFS ac rwy'n disgwyl rhagor o gyngor gan swyddogion ar hyn wrth i'r rhaglen waith gael ei chreu.

5. Cefnogi iechyd meddwl

Yn y bennod hon, canolbwyntiodd Pwyllgor ETRA ar iechyd meddwl.

Daeth y Pwyllgor i un casgliad yn y bennod.

Casgliad 6

Mae gan Cyswllt Ffermio rôl bwysig o ran cyfeirio at gymorth iechyd meddwl. Yn Yn enwedig yng ngoleuni lefelau uchel o orbryder ac anniddigrwydd yn y sector am yr heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu, ac ansicrwydd y cyfnod pontio y mae'r diwydiant ynddo, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn ynghylch a yw gwasanaethau Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi iechyd meddwl a lleihau pwysau yn hytrach nag ychwanegu atynt mewn unrhyw ffordd. Cyn belled ag y bo modd o fewn ei gylch gwaith, rhaid i Cyswllt Ffermio nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi'r gorbryder a'r straen mwyaf i ffermwyr. Dylid ystyried sut y gall 'ychwanegu gwerth' at y gwasanaethau cymorth arbenigol presennol sydd ar gael i ffermwyr, a darparu atebion ymarferol i fynd i'r afael â phrif sbardunau straen. Gan gydnabod faint sydd wedi newid i'r sector ers y gwerthusiad ffurfiol diwethaf yn 2021, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a allai rhywfaint o werthusiad a mewnbwn annibynnol fod yn ddefnyddiol wrth gyflawni'r nod pwysig hwn.

- 50.** Rwy'n cytuno â chanfyddiadau'r Pwyllgor na ddylai Cyswllt Ffermio ddyblygu'r darpariaeth iechyd meddwl bresennol. Rydym yn ffodus yng Nghymru bod gennym sawl sefydliad cymorth sy'n darparu gwasanaethau rhagorol i'r diwydiant ffermio.
- 51.** Rwy'n ymwybodol iawn bod ffermwyr yn parhau i wynebu llawer o rwystrau, gan gynnwys ansicrwydd, unigedd ac unigrwydd a all gael effaith niweidiol ar les meddyliol, ac mae hyn yn destun pryder mawr i mi a Llywodraeth Cymru.
- 52.** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o weithgareddau pwysig i gynorthwyo iechyd meddwl aelodau cymunedau gwledig. Un gweithgaredd o'r fath yw Grŵp Cymorth Fferm Cymru sy'n dod ag elusennau ffermio ynghyd, i rannu gwybodaeth ac arbenigedd gan ddarparu cymorth iechyd meddwl cydlynol cryf i'r diwydiant amaeth.
- 53.** Mae'r DPJ Foundation wedi cael Grant Cymorth Profedigaeth o £52,135 am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2021-24, i wella'r help i'r rheini yn y gymuned amaethyddol sydd wedi dioddef profedigaeth. Cytunwyd ar estyniad o 12 mis tan fis Mawrth 2025, sy'n cynnwys cyllid ychwanegol o £15,406.74.

- 54.** Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn gweithio ar Strategaeth 10 mlynedd iechyd Meddwl a Lles newydd, sy'n anelu at hyrwyddo, cefnogi a grymuso pobl i wella eu hiechyd meddwl a'u lles, a bod yn rhydd rhag stigma a gwahaniaethu. Mae'r ddwy strategaeth yn cydnabod anghenion iechyd meddwl ffermwyr a'r rhai sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth.
- 55.** Mae gwasanaeth "111 gwasg 2" y GIG hefyd ar gael i'r gymuned wledig a ffermwyr, sef llinell ffôn genedlaethol ar gyfer pobl sydd angen cymorth iechyd meddwl brys. Ar gael ers mis Tachwedd 2022, mae'r Gwasanaeth yn darparu asesiad o anghenion ac ymyrraeth dros y ffôn i leihau trallod. Lle bo'n briodol, gellir cyfeirio unigolion at wasanaethau iechyd meddwl, rhoi cyngor hunanofal neu eu cyfeirio at gymorth arall.
- 56.** Ond mae'n bwysig hefyd ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i leihau'r pwysau ar ffermwyr. Dyna pam rwyf mor falch bod yr elusen iechyd meddwl, y DPJ Foundation wedi derbyn fy ngwahoddiad i gynrychioli'r elusennau ffermio ar Ford Gron Gweinidogol newydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog
Ken Skates
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru

20 Awst 2024

Strategaeth Ryngwladol a Maes Awyr Cymru Caerdydd

Annwyl Eluned a Ken

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r **datganiad ysgrifenedig** a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2024 yn cyhoeddi cyllid buddsoddi ychwanegol hirdymor sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Maes Awyr Caerdydd dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol.

Mae'r datganiad yn cyfeirio at **Strategaeth Ryngwladol** Llywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

Er mwyn gwella cysylltedd, bydd y Maes Awyr yn ceisio datblygu llwybrau i'r rhannau hynny o'r byd y nodwyd yn strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru eu bod yn bwysig i sicrhau twf economaidd, megis:

- Y Dwyrain Canol a De Asia
- Yr Undeb Ewropeaidd – canolfannau economaidd ac ariannol pwysig a meysydd awyr hyb
- Gogledd America

Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar weithgarwch cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei Strategaeth Ryngwladol, hoffwn ofyn am ragor o wybodaeth am y datblygiad sylweddol hwn fel y'r amlinellir o dan yr is-benawdau isod.



Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol

Byddwch yn ymwybodol bod dau gyfeiriad at Faes Awyr Caerdydd yn y Strategaeth Ryngwladol, a gyhoeddwyd yn 2020. Gwneir y cyfeiriadau hyn yng nghyd-destun disgrifio cysylltedd Cymru â gweddill y byd ac, ar wahân, mewn perthynas â thwristiaeth antur gynaliadwy a'r uchelgais i'r maes awyr ddod yn ganolfan hedfan carbon isel yn y DU. A allwch chi egluro'r amserlen ar gyfer y penderfyniad buddsoddi? Hefyd, a allwch chi gadarnhau pa lwybrau sy'n cael eu hystyried i'w datblygu a sut y bydd pob llwybr yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol?

Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn nodi tri nod craidd sef:

1. codi proffil Cymru yn fyd-eang;
2. tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad; a
3. sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Byddwn yn croesawu gwybodaeth fanwl am:

- sut mae'r buddsoddiad hwn yn cyfrannu at bob un o'r tri nod craidd, fel yr amlinellir; a
- pha ystyriaeth a roddwyd i gydbwyso'r nodau craidd, yn enwedig o ran cynaliadwyedd?

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech egluro:

- a fydd y buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i weithredu cynlluniau'r Maes Awyr i ymrwymo i dargedau sero net (nad oedd wedi'i gyflawni erbyn mis Mawrth 2023), megis ar gyfer fferm solar yn y maes awyr neu brynu cerbydau trydan neu hybrid?
- i ba raddau mae'r methiant i gyrraedd y targed hwn yn tanseilio nod y Strategaeth Ryngwladol i'r maes awyr ddod yn ganolfan hedfan carbon isel yn y DU?
- sut y bydd aildddechrau gwasanaethau Qatar Airways, os yw'n cael ei sicrhau, yn cefnogi'r bwriad i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol?

Rôl swyddfeydd tramor yn y penderfyniad buddsoddi

A allwch chi egluro pa ran y mae swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn y penderfyniad buddsoddi fel y mae'n ymwneud â chysylltedd Cymru â gweddill y byd? Yn ogystal, a fydd gan y swyddfeydd tramor rôl wrth gyflawni cynlluniau'r maes awyr yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ryngwladol?

Goblygiadau o ran y gyllideb

Mae maint y buddsoddiad yn sylweddol, ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau cyllidebol. Er bod y pecyn buddsoddi yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol, gallai gyrraedd cyfanswm o £206 miliwn dros

gyfnod o ddeng mlynedd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyllideb cysylltiadau rhyngwladol o £8.093 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Rydych yn nodi yn y datganiad bod y buddsoddiad hwn, yn rhannol, yn gysylltiedig â gwella cysylltiadau â rhannau o'r byd a nodwyd yn y Strategaeth Ryngwladol fel rhai sy'n bwysig ar gyfer twf economaidd. Felly, a allwch chi esbonio:

- Sut y bydd y buddsoddiad yn ymwneud â'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol?
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym dro ar ôl tro ei bod yn wynebu sefyllfa ariannol heriol ac na all gynllunio y tu hwnt i gylchoedd blynyddol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd eraill yng nghylch gwaith ein Pwyllgor fel y sector diwylliant. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr arian hwn ar gael?
- Ar ba sail y cafodd buddsoddiad y maes awyr ei flaenoriaethu dros bwysau ariannol eraill fel yr argyfwng ariannol yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon?

Yn olaf, hoffwn nodi pa mor siomedig oedd dysgu am y wybodaeth hon trwy ddatganiad ysgrifenedig ar ddydd Llun cyntaf toriad yr haf. Roedd digon o gyfleoedd i roi diweddariad i'r Aelodau yn ystod y tymor. Er enghraifft, daeth y cyn Brif Weinidog i'n sesiwn graffu ar gysylltiadau rhyngwladol ar 19 Mehefin 2024, bedair wythnos yn unig cyn cyhoeddi'r datganiad hwn. Yn ystod y sesiwn, ni soniwyd am y maes awyr er gwaethaf trafodaethau penodol am flaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol, cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'r gweithgaredd yn y rhanbarthau a glustnodwyd ar gyfer llwybrau hedfan newydd.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r llythyr hwn erbyn 17 Medi 2024 fan bellaf. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor



Huw Irranca-Davies AS/MS
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister & Cabinet Secretary for
Climate Change & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-HIDCCRA-5473-24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

22 Awst 2024

Annwyl Paul,

Rwyf wedi cael cais gan yr Arglwydd Douglas-Miller, Gweinidog Defra dros Fioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles yn gofyn am gydsyniad ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024") sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig, ac a fydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2024 yn ymwneud â mesurau sy'n berthnasol i'r bysgodfa draenogiaid môr sy'n ymestyn y tu hwnt i Barth Cymru. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn gymwys ar sail y DU ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU. Yn benodol, mae Rheoliadau 2024 yn dileu darpariaethau pysgota draenogiaid môr ar gyfer cychod pysgota cofrestredig y Deyrnas Unedig o Reoliad y Cyngor (UE) 2020/123. Mae hyn er mwyn galluogi cyflwyno rheolaeth mwy ymatebol trwy drwyddedu cychod.

Wrth i'r Rheoliadau hyn weithredu rhwymedigaethau ledled y DU rwy'n bwriadu rhoi fy nghaniatâd i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau 2024, felly mae'r darpariaethau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y dyddiad gosod disgwylidig yw 8 Hydref ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister & Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/PO/227/2024

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

30 Awst 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 16 Medi yn swyddfeydd DEFRA yn Marsham Street, Llundain.

Dyma fydd cyfarfod cyntaf y grŵp hwn ers mis Medi 2023 ac rwy'n obeithiol y bydd yn arwain at ailosod cysylltiadau.

Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth ar draws y DU, rhaglen waith ar y cyd ar gyfer gwella cydweithredu, cyfleoedd a heriau i farchnadoedd amaeth y DU a diogelu a gwella bioamrywiaeth y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 107

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5478/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

2 Medi 2024

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, ysgrifennaf i hysbysu eich bod wedi cyhoeddi Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Gweinidogion Cymru, Asiantaeth Taliadau Gwledig a Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) ar 2 Medi 2024 a gellir dod o hyd iddo [yma](#).

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn yn cofnodi'r cytundeb a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru a BCMS ar gyfer darparu gwasanaethau ac arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0242/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Medi 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf ac am ddarparu copi dan embargo o adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae fy ymateb ynghlwm.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 109



Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Isod mae ymatebion Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion y Pwyllgor a nodwyd yn adroddiad mis Gorffennaf 2024: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cynnwys

1.	Argymhellion	3
	Argymhelliad 1. Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a chynllunio olyniaeth.....	3
	Argymhelliad 2. Cefnogaeth i ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin.....	3
	Argymhelliad 3. Camau i ddiogelu ffermydd Cyngorau Sir.....	4
	Argymhelliad 4. Elfen gwerth cymdeithasol y cynllun.	4
	Argymhelliad 5. Diweddariadau ar Weithredoedd y Cynllun.....	5
	Argymhelliad 6. Ffermio organig.	5
	Argymhelliad 7. Technolegau dal ac atafaelu carbon	6
2.	Casgliadau	7
	Casgliad 1. Newydd-ddyfodiaid a ffermydd Cyngorau Sir.....	7
	Casgliad 2. Methodoleg a chyfraddau talu.....	7
	Casgliad 3. Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol a Gweithredoedd Cydwethredol.....	7

1. Argymhellion

Argymhelliad 1. Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a chynllunio olyniaeth.

Ymateb: Derbyn

1. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cynllun fydd ar gael i bob ffermwr a phob math o fferm, er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer y cyfleoedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sydd o'n blaenau. Mae hynny'n cynnwys datrys problem cael hawliau hanesyddol i gefnogi ffermwyr ifanc a newydd ar y Cynllun. Cafodd y cynigion hyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad diweddar. Bydd yr ymatebion i hyn yn cael eu trafod gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys CFFl Cymru a'r undebau ffermio, fel rhan o ddatblygiad parhaus y cynllun a chefnogaeth ehangach i'r diwydiant.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 2. Cefnogaeth i ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin.

Ymateb: Derbyn

2. Rydym yn parhau i ystyried anghenion ein sector tenantiaeth amrywiol a phwysig i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn hygyrch i ffermwyr tenant. Mae'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn cefnogi'r 'ffermwr actif'. Yn seiliedig ar adborth blaenorol gan rhanddeiliaid gan gynnwys Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA), mae haen Gyffredinol y cynllun wedi newid o ddull aml-flwyddyn i ddull blynyddol er mwyn bod yn fwy addas ar gyfer ffermwyr tenant. Rydym hefyd wedi diwygio rheolau sy'n benodol i'r cynllun a chynigion Gweithredoedd Cyffredinol i ddarparu'n well ar gyfer ffermwyr tenant.
3. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rwystr unigryw i ffermwyr tenant ond rydym yn profi cynigion diwygiedig yn erbyn eu gofynion i sicrhau bod ffermwyr tenant yn cael cyfleoedd priodol yn y Cynllun. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Weinidogol a'i his-grwpiau i ddiffinio manylion y Cynllun. Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn eistedd ar y Ford Gron Weinidogol ac ar y Gweithgor Swyddogion i sicrhau bod anghenion tenantiaid yn cael eu hystyried.
4. Mewn ymateb i adborth rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth yn ddiweddar sy'n caniatáu i denantiaid o dan Ddeddfau 1986 a 1995 geisio cymroddedu os yw eu landlord yn gwadu'n afresymol geisiadau ynghylch cael gafael ar gymorth ariannol (fel y darperir gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023) neu fodloni gofynion rheoleiddio. Mae'r darpariaethau'n gymwys pan fydd tenantiaid yn gofyn am

gydsyniad y landlord i faterion a bennir yn eu cytundeb rhentu neu pan fyddant yn dymuno newid cymal.

5. Mae dod o hyd i sefyllfa sy'n dderbyniol ar gyfer tir comin yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn ystyried y posibilrwydd y gallai porwyr sy'n cymryd rhan mewn Cytundeb Tir Comin gael mynediad at gyllid cyfatebol i'r Categoriâu Talu Cyffredinol a Chynefinoedd drwy eu pori cyfunol – yn ogystal â chyfleoedd eraill drwy weithgareddau gwella ehangach (megis mynediad, ymddygiad gwrthgymdeithasol, plannu coed, adfer cynefinoedd).
6. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr y diwydiant i ddatblygu'r syniadau hyn ac i ystyried unrhyw gynigion eraill a allai fod ganddynt. Bydd y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno i Grwpiau Rhanddeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i'w hystyried cyn y gofynnir i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol ar gyflwyno'r Cynllun.

Goblygiadau ariannol: Wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

Argymhelliad 3. Camau i ddiogelu ffermydd Cynghorau Sir.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

7. Mae ffermydd Awdurdodau Lleol yn ased pwysig i'r diwydiant amaethyddol ac yn parhau i fod yn ffordd y mae llawer o bobl ifanc yng Nghymru yn cael mynediad i'r diwydiant.
8. Yng nghyd-destun ehangach holl dir amaethyddol Cymru, mae ffermydd Awdurdodau Lleol yn cynrychioli ardal fach, sy'n cyfrif am ychydig yn is na 1% o dir amaethyddol Cymru.
9. Yn flynyddol mae Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, yn cyhoeddi adroddiad ar weithgareddau Llywodraeth Cymru a gweithgareddau Awdurdodau Lleol mewn perthynas â mân-ddaliadau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ystadegol am arwynebedd mân-ddaliadau a'r nifer ohonynt sy'n eiddo i awdurdodau lleol.
10. Yn y pen draw, mater i Awdurdodau Lleol Cymru yw rheoli'r ffermydd hyn. Nid yw Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn rhoi rheolaeth Weinidogol dros bwerau'r awdurdodau lleol i werthu tir. Awdurdodau lleol yn unig sy'n gallu ystyried gwerthu tir, a gwneud penderfyniadau ynghylch sut maen nhw'n mynd ati i wneud hynny, ac nid yw'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru ymyrryd ynddo na chwarae rôl ynddo.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 4. Elfen gwerth cymdeithasol y cynllun.

Ymateb: Derbyn

11. Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi dweud y byddwn yn cynnwys taliad am y buddion ehangach y mae ffermwyr yn eu darparu, a hynny ar ben y taliad am incwm a gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd, i gydnabod gwerth cymdeithasol ffermio. Rydym yn gweithio ar y fethodoleg talu a'r dystiolaeth ategol a fydd yn cael eu trafod gyda Grwpiau Rhanddeiliaid y Cynllun yn ddiweddarach eleni. Mae hwn yn waith pwysig a chymhleth ac mae'n bwysig ein bod yn ei gael yn iawn er mwyn helpu i sicrhau hyfywedd ffermydd Cymru.

Goblygiadau ariannol: Wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

Argymhelliad 5. Diweddariadau ar Weithredoedd y Cynllun.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

12. Rydym yn hapus i ymrwymo i adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor pan ellir rhoi diweddariadau allweddol am y broses ddylunio. Ni fyddai hyn ar amserlen sefydlog fel y 3 mis a gynigiwyd yma. Y disgwyl yw y bydd o leiaf un diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn hon.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 6. Ffermio organig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried y ffordd orau o wobrwyo ffermwyr organig drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a bydd yn ystyried cynlluniau ffermio organig o rannau eraill o Ewrop wrth wneud gwaith dadansoddi.

Mae'r Taliad Cymorth Organig a gynigir fel cynllun trosiannol ar hyn o bryd yn gweithio drwy ddarparu cyllid i ffermydd organig, gyda lefelau talu yn seiliedig ar eu harwynebedd tir a'r math o ffermio a weir. Mae hyn yn debyg i gynlluniau sy'n cael eu rhedeg mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill y DU drwy Weithgor y Pedair Gwlad ar Gynhyrchu Organig, ac maent yn ymwybodol o'r datblygiadau mewn polisi organig ledled y DU.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fynychu cyfarfodydd Fforwm Organig Cymru a rhannu gwybodaeth a dderbynnir drwy'r cyfarfodydd hyn rhwng adrannau. Mae'r wybodaeth sy'n dod o'r cyfarfodydd hyn eisoes wedi cyfrannu at ystyriaethau o ran dylunio'r cynllun, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Fforwm wrth iddo gael ei ddatblygu.

Bydd trafodaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru a Fforwm Organig Cymru i benderfynu ar y bylchau rhwng cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac arferion Ardystio Organig. Yna bydd cefnogaeth ar gyfer ffermio organig yn cael ei hystyried mewn perthynas â Haen Opsiynol y Cynllun. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhad y Cynllun Organig ar gyfer 2025 i gefnogi'r sector pwysig hwn.

Goblygiadau ariannol: Wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

Argymhelliad 7. Technolegau dal ac atafaelu carbon

Ymateb: Derbyn

13. Rydym wedi sefydlu Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel is-grŵp o Ford Gron Weinidogol y Cynllun i lywio'r broses o'i ddylunio. Mae'r Panel yn adolygu'r dystiolaeth ar gyfer unrhyw gamau pellach neu amgen i atafaelu carbon, ynghyd â'r cyfle i gyflwyno'r camau hynny ledled Cymru fel rhan o Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar ddyluniad y cynllun unwaith y bydd trafodaethau'r Ford Gron a'r Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon wedi dod i ben.

Goblygiadau ariannol: Dim

2. Casgliadau

Casgliad 1. Newydd-ddyfodiaid a ffermydd Cynghorau Sir.

Ymateb: Mae rhaglen gynhwysfawr o waith yn ei lle i gefnogi'r broses o ddatblygu dyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn seiliedig ar dystiolaeth y Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad ac adborth uniongyrchol gan randdeiliaid. Mae grwpiau Swyddogion a Bord Gron y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'u his-grwpiau yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn proses gynhwysol i ddatblygu datrysiad derbyniol i ddyluniad y Cynllun. Mae'r Grwpiau yn ystyried pob agwedd ar y cynllun gan gynnwys tir comin a thenantiaeth. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig diweddar ar y cynnig i dalu am ardaloedd SoDdGA fel rhan o'r categori talu cynefinoedd a'r ymateb gan randdeiliaid yn dystiolaeth fod y berthynas hon yn gweithio.

Datganiad Ysgrifenedig: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – Dyluniad y Cynllun yn mynd rhagddo drwy gydweithio (23 Gorffennaf 2024) ILLYW.CYMRU

Casgliad 2. Methodoleg a chyfraddau talu.

Ymateb: Rydym wedi ymrwymo i ystyried sut y gall cyfraddau talu gynnwys ffactorau y tu hwnt i gostau a ysgwyddir a'r incwm a gollir, gan gydnabod y gwerth cymdeithasol a ddarperir gan y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Rydym yn gweithio ar y fethodoleg talu a'r dystiolaeth ategol a fydd yn cael eu trafod gyda Grwpiau Rhanddeiliaid y Cynllun yn ddiweddarach eleni. Mae hwn yn waith pwysig a chymhleth, ac mae'n bwysig ein bod yn ei gael yn iawn i helpu i sicrhau hyfywedd ffermydd Chymru.

Casgliad 3. Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol.

Ymateb: Dim ond o ganlyniad i amser, ymrwymiad a thrafodaethau cadarnhaol yr holl sefydliadau sydd ar y Ford Gron Weinidogol a Grŵp Swyddogion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yr ydym yn gallu gwneud y cynnydd hwn. Mae llawer o waith i'w wneud felly rydym yn ddiolchgar iawn am eu hymrwymiad i barhau i weithio'n gyflym

Foundational Economy Briefing

By members of the Foundational Alliance Wales network for the Senedd Economy, Trade and Rural Affairs Committee

This briefing document is the first of two documents submitted to the Committee and addresses definitions of the foundational economy and related practice. The second document contains answers to the Committee's questions and should be read in the context of this first briefing document by the same authors

Contents

1. Two definitions of the foundational economy, and their different policy implications	2
2. Welsh Government's grand objectives and limited achievements.....	3
3. Alliances of the willing as a who does what discovery	5
4. The potential of skunkworks projects	7

Joe Earle (Executive director, People's Economy)

Keith Edwards (Housing lead, Foundational Alliance Wales)

Prof Julie Froud (University of Manchester and Director, Foundational Economy Research Ltd)

Prof Ian Rees Jones (Cardiff University and previously Director, WISERD research centre)

Prof Kevin Morgan (Cardiff University)

Jo Quinney (Organiser, Foundational Alliance Wales)

Adrian Roper (Care lead, Foundational Alliance Wales)


Prof Karel Williams (Chair, Foundational Alliance Wales and Director, Foundational Economy Research Ltd)

This briefing reflect the views of the eight individuals above who are all members of the Foundational Alliance Wales network. It has not been debated or approved by the full membership.

The corresponding author is Karel Williams (williamskarel@hotmail.com)

1. Two definitions of the foundational economy, and their different policy implications

1. There are two definitions of the foundational economy (FE), both of which are correct and complementary¹:
 - i. *A narrow, descriptive definition of the FE as the non-tradeable sectors providing basic services like health and care, utilities etc. These sectors have been neglected by those preoccupied with policies for high-tech and tradables but altogether they account for 40% of employment in Wales.*
 - ii. *A broad, analytic definition of the FE as the conditions of well-being: (a) the three pillars of household liveability (residual income after paying for essentials + access to basic services + social infrastructure) on the demand side; and (b) the stock of capable resourceful firms on the supply side; with (c) consumption and production mitigating nature and climate emergency.*



2. The distinction between these two definitions matters because they have very different implications for policy and political practice.
3. Welsh Government and the Welsh political classes (like some northern English Mayoralities) are fixed on the narrow descriptive definition, because its political corollary is business as usual in terms of policy. Those who use this definition see that it largely legitimates and extends what they were already doing in terms

of policy objectives and instruments. So, the Greater Manchester Combined Authority sees the FE as a way of extending their higher productivity objective to low wage activities like care and hospitality. The Government and opposition parties in Wales see it as a way of continuing the consensual, cross-party promotion of local purchasing, which predates the FE concept. See, for example, the Economy Minister's statement in December 2023 on the progress of the FE², which listed procurement achievements in transport, energy and housing. It is no exaggeration to say that this statement could have been given by a minister and warmly received by opposition parties at any time in the past 15 years.

4. Those who think and do foundational in Wales, like the Foundational Economy Research Ltd³ consultancy and the Foundational Alliance Wales⁴ membership organisation, are fixed on the broad analytic definition. The political corollary is urgency because in 2024 we are in the middle of a liveability crisis when all three pillars are crumbling. Cost of living crisis is squeezing household residual income (i.e. disposable income minus the cost of the foundational essentials of housing, utilities, food and transport). At the same time citizens have access difficulties and waiting lists in essential services like health and care. While austerity-hit local authorities are retreating from hard social infrastructure provision in the form of community centres, libraries and parks and cutting support for activities like youth clubs which sustain social cohesion⁵. The implication is that FE is a frame within which we must think about doing things differently for the times we are in, and for the new 2020s challenges we are facing,
5. What and how to do different is the puzzle we all need to address.

2. Welsh Government's grand objectives and limited achievements

6. In Wales (as in Scotland) the story of devolved government is grand objectives and limited achievements. In both cases it suits opposition parties to blame a long-standing party of government and claim that, if elected, they could do better. But, in all fairness, underachievement is rooted in political structures and processes which have been largely taken for granted by all major parties.
7. Welsh Government has to act within a complex multi-level political apparatus. This includes Westminster above and below a collection of 22 local authorities plus not-for-profit institutions serving households (NPISHs) like health boards and housing associations; around this are the Cardiff Bay satellites of trade bodies defending private interests and the NGOs dependent on government contracts.

8. In this context, Welsh Government's broad approach has been strategizing and mission driven. Before Mariana Mazzucato⁶ popularised the term, Welsh Government went for big goals and targets. Hence the Communities First goal of poverty reduction in deprived communities 2001-18, and the Future Generations Act 2015 translating UN Sustainable Development Goals into Welsh legislation. And targets are set in almost every policy area, from tree planting to the reduction in car journeys by 2030.
9. Where the objectives of Welsh Government policy overlap with the liveability agenda, progress has been limited. Most obviously the big three publicly funded and Welsh controlled foundational systems of health, education and care have not been reformed to operate in a new and better Welsh way. And liveability has been going uncontrollably backwards in the 2020s with austerity funding undermining public services and social infrastructure; while the cost-of-living crisis about market entitlement, especially around energy and food prices, erodes residual income.
10. Against this background, Welsh Government has responded defensively. Where possible, it has softened the edges of Westminster policy as, for example, by building social housing in Wales when England did not. On complex problems, it has pressed single-shot mandating policies, recently including universal free school meals, 20mph speed limits and (proposed) 10% tree and woodland cover on farms. These are policies which are challenging to implement, even when they do not encounter political resistance.
11. The underlying problem with the Welsh Government version of mission-driven is that it does not address who does what and how except in a proceduralised way. Welsh Government's approach is to legislate or issue regulations and commit to goals and targets before setting up another office, unit or committee whose job is to get everybody on board for top-down policy.
